Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
Isadran Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a Chymunedau

Arolwg o Arian y Loteri

Papur ymgynghori ar bolisi dosbarthu'r Loteri

Gorffennaf 2002

Cynnwys

Rhagair 3

1 Rhagarweiniad 4
1.1 Gosod y cyd-destun 4
1.2 Byd sy'n newid 5
1.3 Loteri sy'n esblygu 5
1.4 Beth yw eich barn chi? 6

2 Gwneud y Loteri yn fwy ymatebol i anghenion a blaenoriaethau cymunedau 7
2.1 Rhagarweiniad 7
2.2 Ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Loteri 7
2.3 Dull gweithredu ar y cyd 8
2.4 Diwrnod Cenedlaethol y Loteri 9
2.5 Ymgynghori 9
2.6 Cynnwys y cyhoedd mewn pwyllgorau dyfarnu cenedlaethol a rhanbarthol 11
2.7 Gwneud penderfyniadau yn lleol 11
2.8 Grantiau micro 12

3 Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu'n fwy teg ar draws holl ardaloedd a chymunedau y DU 14
3.1 Rhagarweiniad 14
3.2 Adeiladu ar Allu 15
3.3 Targedu ardaloedd a grwpiau 16
3.4 Ceisiadau 18
3.5 Un ffurflen gais 19
3.6 Ffurflenni cais electronig 19
3.7 Dosbarthwyr Loteri fel buddsoddwyr 20
3.8 Siopau-un-stop 21
3.9 Partneriaethau gweithredol 22

4 Rheoli sialensau penodol arian y Loteri 24
4.1 Rhagarweiniad 24
4.2 Ychwanegolrwydd 24
4.3 Cynaladwyedd 24
4.4 Ymestyn arian refeniw 25
4.5 Arian craidd 25
4.6 Gwaddoliad 26
4.7 Arloesedd a risg 26
4.8 Lleihau biwrocratiaeth ar gyfer prosiectau risg isel 27
4.9 Cefnogi prosiectau cyfalaf sylweddol 27
4.10 Ariannu mentrau cymdeithasol 27

5 Cyflwyno arian y Loteri yn fwy effeithlon ac effeithiol 29
5.1 Rhagarweiniad 29
5.2 Cynyddu gweithio ar y cyd 29
5.3 Lleihau nifer y dosbarthwyr 30
5.4 Lleihau nifer y rhaglenni 31
5.5 Ariannu Canlyniad 31
5.6 Balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol 32

6 Casgliad 32

Rhagair

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae'r deuddeg biliwn o bunnoedd a godwyd hyd yma ar gyfer achosion da wedi golygu bod pobl a chymunedau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ar eu hennill, ac mae wedi ariannu pob math o brosiectau gwahanol. Canolfannau Celfyddydau, cyfleusterau chwaraeon, prosiectau hanes lleol, canolfannau byw'n iach, clybiau ar ôl ysgol, enillwyr medalau Olympaidd, parciau lleol, stadia cenedlaethol, neuaddau cymunedol: mae'r rhestr yn cynnwys dros 100,000 o ddyfarniadau. Mae gennym bob cyfiawnhad dros ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwyd gan arian y Loteri yn genedlaethol ac yn ein cymunedau lleol: yn yr ystyr yma mae pawb ohonom yn enillwyr y Loteri.

Ond mae bron i wyth mlynedd wedi mynd heibio ers cychwyn y Loteri. Mae angen i ni ystyried sut y gallwn hybu a datblygu'r Loteri ar gyfer y dyfodol a chynllunio sut i symud ymlaen yn y blynyddoedd nesaf er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwn. Y cam cyntaf yn y broses hon yw'r papur ymgynghorol yma.

Mae'r papur yn nodi rhai o'r materion y gallem eu trafod a rhai o'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â hwynt. Nid bod yn rhagnodol yw'r bwriad. Credwn mai pobl a chyrff sydd â phrofiad uniongyrchol o gael arian gan y Loteri, o bosib yn gweithio ar brosiectau a ariannwyd gan y Loteri neu sydd wedi gwneud cais am grant gan y Loteri, fydd yn gallu adnabod ymhle y gellir gwella pethau. Ac mae gan bawb sy'n chwarae'r Loteri ddiddordeb yn y ffordd o wario'r arian. Fel y mae pawb ohonom yn enillwyr y Loteri, mae pawb ohonom hefyd yn rhan-ddeiliaid yn y Loteri, ac fe hoffem weld cymaint â phosib o bobl yn cyfrannu i'r drafodaeth.

Dyma eich cyfle chi i roi gwybod i ni beth yw eich barn. Gobeithiwn y byddwch yn canfod yr amser i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Y Gwir Anrhydeddus Tessa Jowell AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Elaine Murray ASA
Dirprwy Weinidog dros Dwristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon,
Gweithrediaeth yr Alban.



Jenny Randerson AC
Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



Michael McGimpsey ACD
Gweinidog dros Ddiwylliant, Celfyddydau a Hamdden,
Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Adran 1: Rhagarweiniad

1.1 Gosod y cyd-destun

Ers sefydlu'r Loteri Genedlaethol ym 1994 daeth yn un o'r loterïau mwyaf llwyddiannus yn y byd ac mae'n bwysig cydnabod a dathlu'r llwyddiant yma. Mae'n amhosib ariannu popeth yr hoffem o wariant cyhoeddus. Sefydlwyd y Loteri i ariannu rhai o'r pethau nad oedd y Llywodraeth yn gallu eu hariannu, ond a ystyriwyd fel pethau pwysig. Y pump achos da gwreiddiol oedd y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau a'r Mileniwm, ac fe ychwanegwyd iechyd, yr amgylchedd ac addysg at y rhain ym 1998. Nid yw'r Mileniwm bellach yn derbyn arian gan y Loteri ond mae'r achosion da eraill yr un mor bwysig i ansawdd bywyd pobl ag yr oeddent pan gyflwynwyd hwy am y tro cyntaf, ac nid oes gennym unrhyw fwriad i newid yr arian y maent yn ei dderbyn.

Er hynny, rydym wedi newid y ffordd y mae arian y Loteri yn gweithio i'r achosion da yma. Roedd yno bryderon bod gormod o arian y Loteri yn mynd ar adeiladau, a dim digon ar bobl, ei bod yn haws i gyrff a mudiadau mawr, sefydledig i gael mynediad at arian na grwpiau llai a bod rhai grwpiau ac ardaloedd yn colli allan yn llwyr. Mae'r newidiadau gyflwynwyd gennym ym 1998 wedi helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

O ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynwyd yng nghyfrifoldebau a phwerau dosbarthwyr, galluogwyd Dosbarthwyr y Loteri i wneud gwell defnydd o arian y Loteri trwy ddefnyddio arian yn fwy strategol. Maent wedi datblygu ffyrdd o weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill ac maent yn gallu cydweddu ac ychwanegu gwerth at bolisïau a rhaglenni prif ffrwd yn well. A thrwy dargedu rhai o'u rhaglenni i feysydd a grwpiau sydd â'r angen mwyaf, maent wedi gallu cyfrannu at y nod ehangach o hybu cynnwys pobl mewn cymdeithas, yn ogystal â chyflenwi canlyniadau ar gyfer achosion da unigol.

Mae sefydliadau llwyddiannus yn parhau'n llwyddiannus, fodd bynnag, trwy gymryd golwg galed o dro o dro ar eu hunain a newid, lle mae angen. Nid yw'r Loteri yn eithriad i'r rheol hon ac mae'r cyfnod yma, bron i wyth mlynedd ers i'r Loteri gychwyn ond yn ddigon pell o'r cyfnod trwyddedu nesaf, yn gyfnod addas i edrych lle rydym wedi'i gyrraedd ac i ble rydym yn dymuno mynd yn y dyfodol – ac yn fwy na dim – penderfynu sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno.

Rhennir yr arolwg o'r Loteri yn ddwy ran. Roedd y rhan gyntaf, a ddisgrifiwyd mewn papur ymgynghorol a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin, yn ymdrin â threfniadau trwyddedu pan ddaw'r drwydded bresennol i ben yn 2009. Mae'r papur hwn yn delio â rhan arall yr arolwg, sef dosbarthu arian y Loteri. Nid yw'r papur hwn yn ceisio archwilio dosbarthwyr unigol mewn manylder. Yn hytrach mae'n ymdrin â themâu eang o ran y ffordd y mae arian y Loteri yn cael ei ddosbarthu, sy'n gyffredin i bob dosbarthwr.

Mae arian y Loteri yn arbennig. Mae'n ffynhonnell ariannu cwbl wahanol, ar wahân i'r Trysorlys. Ac mae ganddi botensial mawr ar gyfer arloesedd, o ran y mathau o bethau sy'n cael eu hariannu a'r ffordd y mae'n eu hariannu. Gellir defnyddio arian y Loteri i arbrofi, i roi cynnig ar bethau newydd neu ffyrdd gwahanol o gyflenwi'r un pethau. Yn ogystal â chadw rhai o'r pethau gorau o'n gorffennol, gellir ei ddefnyddio hefyd fel allwedd i agor potensial newydd, mewn chwaraeon, y celfyddydau, treftadaeth neu mewn cymunedau. Ac mae gan arian y Loteri y potensial i wneud gwelliannau parhaol i ansawdd bywyd pobl trwy ariannu prosiectau na fyddent wedi cael cefnogaeth fel arall.

Mae'r Loteri yn wirioneddol ddemocrataidd. Mae pawb yn gallu chwarae'r Loteri, ac yn yr un modd fe all pawb hefyd wneud cais am arian y Loteri. Mae pobl yn gwneud cais am arian ar gyfer y pethau sydd bwysicaf iddynt hwy, a'r ymwneud a'r ymrwymiad yma i'r prosiectau y mae'n eu hariannu yw cryfder mwyaf y Loteri. Os bydd pobl yn ymwneud â'r ffordd y mae arian y Loteri yn cael ei wario, yna byddant yn fwy ymroddedig i weld yr arian yn cael ei ddefnyddio'n dda ar brosiectau a rhaglenni sy'n cwrdd â'u hanghenion ac yn gadael yr etifeddiaeth orau bosib.

1.2 Byd sy'n newid

Datblygwyd rhaglenni Loteri i gyflenwi canlyniadau mewn ffordd hyblyg gan ddefnyddio'r llwybr mwyaf addas. Fe all y llwybrau hyn amrywio o roi grant i grŵp ieuenctid lleol er mwyn iddynt allu gosod to newydd yn lle hen un sy'n gollwng dŵr at helpu rhieni â'u hanghenion gofal plant trwy Bartneriaethau Gofal Plant Lleol. Yr hyn sydd gan lawer o'r rhain yn gyffredin yw eu bod yn ariannu cymunedau, naill ai trwy grantiau uniongyrchol neu trwy ariannu gwasanaethau cymunedol.

Wrth i raglenni Loteri gael eu traed oddi tanynt maent wedi cael eu cysylltu fwyfwy gyda rhaglenni cyhoeddus eraill ac o dan ddylanwad y trefniadau ar gyfer y rhain, maent wedi gweithio mewn partneriaeth â rhaglenni a ffynonellau arian eraill. Yn aml iawn gall datblygu'r trawsdoriad yma o gysylltiadau fod yn allweddol i gael arian y Loteri i lifo i'r mannau lle gall wneud y daioni mwyaf. Ac oherwydd fod strwythurau a rhaglenni'r Llywodraeth, blaenoriaethau lleol a rhanbarthol ac anghenion y sector gwirfoddol yn newid dros amser mae'n rhaid i'r Loteri yn ei thro roi ystyriaeth i'r newid yma yn y cyd-destun.

Ymysg y newidiadau allweddol yn strwythur llywodraeth ganol a llywodraeth leol y mae'r parhad yn natblygiad gweinyddiaethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon; datblygiad agenda ranbarthol Lloegr, a adlewyrchwyd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Rhanbarthol[1] , a mesurau i ailfywiogi llywodraeth leol yn dilyn y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol[2] yn Lloegr. Mae angen i ni ystyried a yw dulliau cyflenwi presennol yn adlewyrchu a chefnogi'r strwythurau llywodraeth cyfredol a'r rhai sy'n datblygu yn y DU.

Yn ogystal â newidiadau i strwythurau, rydym hefyd wedi gweld ailganolbwyntio blaenoriaethau cenedlaethol ar wella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mewn iechyd ac addysg a lleihau tor-cyfraith ac eithrio cymdeithasol. Mae'r rhain hefyd yn cael dylanwad ar arian y Loteri.

1.3 Loteri sy'n esblygu

Felly mae'r Loteri wedi esblygu dros yr wyth mlynedd diwethaf, yn rhannol mewn ymateb i bryderon a phrofiadau rhan-ddeiliaid, ac yn rhannol mewn ymateb i newidiadau mewn anghenion. Mae'n siŵr y byddai'r broses hon yn mynd yn ei blaen heb ymyrraeth pellach. Ond er mwyn sicrhau bod y Loteri yn parhau'n wirioneddol effeithiol wrth gwrdd ag angen a'i bod yn ymatebol i'r cyhoedd sy'n ei hariannu, mae'r amser yn ymddangos yn addas i ystyried pa gyfeiriad y dylai'r Loteri ei ddilyn dros y blynyddoedd nesaf.

1 Your Region, Your Choice – Revitalising the English Regions, Mai 2002, DTLR.

2 Strong Local Leadership – Quality Public Services, Rhagfyr 2001, DTLR.

Mae dosbarthwyr unigol yn ymgynghori'n eang ar y newidiadau mewn anghenion a blaenoriaethau o fewn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, gan ddangos sut y byddant yn ymateb yn eu cynlluniau strategol. Mae'r ymgynghori yma'n ategu'r broses honno ac yn cymryd golwg ehangach ar y Loteri gyfan.

Yn y papur hwn rydym wedi nodi rhai o'r materion i'w hystyried o dan bedwar maes cyffredinol:

- gwneud y Loteri yn fwy ymatebol i anghenion a blaenoriaethau cymunedau;
- sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu'n deg i bob ardal a chymuned ar draws y DU;
- rheoli her unigryw arian y Loteri ; a
- chyflenwi arian y Loteri mewn ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon

1.4 Beth yw eich barn chi?

Rydym yn ddiolchgar am gyfraniadau gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy wrth gynnal yr arolwg hyd yma, yn cynnwys Dosbarthwyr y Loteri, NESTA[3], Camelot, Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo a chynrychiolwyr llywodraeth leol. Hyd yn hyn mae'r drafodaeth wedi bod yn adeiladol a heriol.

Ond y rhan bwysicaf o'r broses yw clywed eich barn chi. Efallai eich bod wedi derbyn arian gan y Loteri; efallai eich bod wedi gwneud cais amdano ac wedi cael eich gwrthod; efallai eich bod wedi gweld prosiect Loteri ar waith yn llwyddiannus yn eich ardal; efallai eich bod yn chwarae'r Loteri bob wythnos. Mae eich barn yn bwysig wrth benderfynu sut y dylid gwario arian y Loteri yn y dyfodol.

Rhan gyntaf y broses yw'r papur trafod hwn. Mae'n edrych ar nifer o faterion a chynigion ynghylch sut y gallai neu sut y dylai'r Loteri newid y ffordd y mae'n gweithredu gan ofyn am eich sylwadau a'ch barn chi. Efallai y byddwch am weld newidiadau mewn meysydd eraill.

Bydd yr ymgynghoriad yma'n parhau tan 30 Hydref 2002. Ar ôl hynny byddwn yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac yn eu defnyddio i ddatblygu strategaeth hir dymor ar gyfer dyfodol y Loteri.

3 National Endowment for Science, Technology and the Arts

Adran 2: Gwneud y Loteri yn fwy ymatebol i anghenion a blaenoriaethau cymunedau

2.1 Rhagarweiniad

Er gwaethaf llwyddiant diamheuol y Loteri, nid yw pobl mor ymwybodol â hynny o'r hyn a gyflawnwyd yn eu hardaloedd lleol, a photensial arian y Loteri yn eu cymunedau eu hunain. Hoffai'r Llywodraeth pe bai pobl yn ymwneud mwy â'r Loteri, yn enwedig ar lefel leol a chymryd mwy o ran wrth benderfynu sut ac ymhle y dylid gwario arian y Loteri.

Mae dosbarthwyr y Loteri eisoes yn ymgynghori'n eang ynghylch eu rhaglenni a'u blaenoriaethau, ac yn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a fynegir. Yn gynyddol yn Lloegr datganolwyd gwneud penderfyniadau i lefelau rhanbarthol, mewn rhai achosion trwy eu pwyllgorau dyfarnu rhanbarthol eu hunain ac mewn achosion eraill trwy weithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol a sefydliadau rhanbarthol neu leol. Yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon mae dosbarthwyr y Loteri mewn sefyllfa dda i ymdrin â blaenoriaethau lleol trwy eu swyddfeydd yn y gwledydd hynny. Mae'r rhain yn gweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig perthnasol er mwyn sicrhau bod arian y Loteri yn gymesur ag amcanion strategol y gweinyddiaethau datganoledig ac yn meddu ar gyfeiriad lleol penodol.

Teimlwn fodd bynnag, fod yna le i ymgynghori hyd yn oed yn fwy â rhan-ddeiliaid ynghylch sut yr hoffent weld arian y Loteri yn cael ei wario, yn genedlaethol ac yn eu hardaloedd eu hunain. Hoffem hefyd pe bai penderfyniadau ynghylch dyfarnu arian yn cael eu cymryd yn agosach at y fan lle mae'r arian yn mynd yn y diwedd, lle bynnag y mae hynny'n bosib, yn ogystal â chynyddu ymwneud y cyhoedd wrth gymryd y penderfyniadau hynny.

Mae gan ddosbarthwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod arian y Loteri yn cael ei wario'n briodol. Yn anffodus fe all hynny olygu weithiau bod penderfyniadau ynglŷn ag ariannu yn cymryd amser hir. Lle mae symiau mawr o arian dan sylw mae'n rhaid archwilio ceisiadau yn fanwl ac mae hynny'n cymryd amser. Cafodd cynllun 'Arian i Bawb' ganmoliaeth eang oherwydd ei lwyddiant wrth gyflymu'r broses ar gyfer grantiau llai[4]. Ond teimlwn fod lle hefyd ar gyfer rhaglen newydd am grantiau sydd hyd yn oed yn llai, y gellid ei gweinyddu yn lleol a lle gellid gwneud penderfyniadau yn gyflym iawn.

2.2 Ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Loteri

Mae'n eglur bod lle i wneud mwy er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn sy'n cael ei ariannu gan arian y Loteri: dangosodd ymchwil a wnaed gan Camelot ym 1999 mai 20% yn unig o'r rhai a holwyd oedd yn gallu rhoi enghraifft o brosiect Loteri lleol, er bod y ffigwr wedi cynyddu i 34% ar ddiwedd 2001. Efallai mai'r cyfle i fod yn filiwnydd sy'n denu pobl i brynu tocynnau Loteri yn y lle cyntaf. Ond mae'r wybodaeth bod cyfran o'r arian yn mynd at achosion da yn cymell pobl i barhau i brynu. Ac mae hynny'n golygu mwy o arian er budd i gymunedau.

4 Am fwy o fanylion ynglŷn ag 'Arian i Bawb' gweler Adran 2.8 Grantiau Micro.

Mae yna fanteision pellach mewn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch beth mae'r Loteri yn ei ariannu. Fel arfer mae sefydliadau mawr yn eithaf gwybodus ynghylch ffynonellau ariannu posib, yn cynnwys arian gan y Loteri. Efallai y bydd hyn yn anoddach i grwpiau llai lle nad oes yno sector gwirfoddol sefydledig, neu awdurdod lleol gyda swyddog ariannu penodol. Byddai'n ddymunol pe bai'r cyhoedd a'r rhai sy'n prynu tocynnau Loteri yn enwedig, yn ymwybodol o'r ffordd y mae eu harian yn cael ei wario, boed ar lefel leol, rhanbarthol neu genedlaethol. Ond mae yr un mor bwysig bod y rhai a allai fod yn llwyddiannus wrth gael arian gan y Loteri yn ymwybodol o'r hyn y mae eraill wedi'i gyflawni, yn enwedig ar lefel leol lle gall llwyddiannau lleol annog eraill i wneud cais.

Gwnaed llawer iawn mewn blynyddoedd diweddar i hybu'r Loteri yn fwy eang:

- Mae'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi datblygu cronfa ddata y gellir cael mynediad ati trwy'r rhyngrwyd (www.lottery.culture.gov.uk) sy'n rhoi manylion holl ddyfarniadau arian y Loteri.
- Lansiwyd llinell gymorth ffôn genedlaethol gan ddosbarthwyr yn Chwefror 2001 (0845 275 0000) sy'n rhoi cyngor cyffredinol ar y grantiau sydd ar gael a manylion cyswllt ar gyfer y dosbarthwyr perthnasol. Lansiwyd porth rhyngrwyd ar yr un adeg (www.lotterygoodcauses.org.uk). Mae'r ddau yma wedi bod yn boblogaidd, gydag oddeutu 8000 o ymholiadau i'r llinell gymorth hyd yma a thros 4000 o ymweliadau bob mis â'r porth, ar gyfartaledd.
- Mae dosbarthwyr wedi datblygu brand ar y cyd, "Ariannwyd gan y Loteri", i'w ddefnyddio yn ychwanegol i'w logo unigol eu hunain, fel bod pobl yn gallu gweld ar unwaith os yw prosiect neu raglen wedi derbyn arian gan y Loteri.
- Yn ddiweddar buddsoddodd Camelot dros £3 miliwn mewn ymgyrch tair wythnos, gan weithio'n agos â'r dosbarthwyr, i ddathlu llwyddiannau'r Loteri a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am yr arian a ddosbarthwyd i achosion da. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbyseb teledu a ddangoswyd ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig ac ymgyrch cyhoeddusrwydd rhanbarthol gydag atodiadau yn y prif bapurau newydd rhanbarthol. Darparwyd manylion i fanwerthwyr gan Camelot hefyd er mwyn iddynt arddangos dyfarniadau lleol yn eu siopau ac fe'u hanogwyd hefyd i ddangos faint o arian a godwyd ar gyfer achosion da.

Ond credwn fod angen gwneud mwy os yw'r cyhoedd i ddod yn gyffredinol ymwybodol o'r ffordd y mae arian y Loteri yn cael ei wario.

A wnaeth yr ymgyrch diweddar helpu i wella ymwybyddiaeth o achosion da'r Loteri, ac annog diddordeb mewn gwneud cais am arian? A fyddai'n werth chweil cynnal ymgyrchoedd tebyg yn rheolaidd?

Pa gyfran o'r arian a godwyd gan y Loteri sy'n briodol i'w wario ar gynyddu ymwybyddiaeth o'r achosion da a chynyddu ceisiadau am arian?

2.3 Dull gweithredu ar y cyd

Mae'r pymtheg dosbarthwr Loteri[5] yn gwneud llawer yn unigol i hyrwyddo arian y Loteri, ac mae Camelot a hwythau yn gynyddol yn cydweithio'n agos i hyrwyddo'r achosion da sy'n cael

5 Y pymtheg dosbarthwr yw: Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau'r Alban, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Sport England, Sport Scotland, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon, UK Sport, Cronfa Treftadaeth y Loteri, y Gronfa Gymunedol, Y Gronfa Cyfleoedd Newydd, Comisiwn y Mileniwm, y Cyngor Ffilmiau a Scottish Screen. Yn dechnegol nid yw NESTA yn ddosbarthwr Loteri.

arian gan y Loteri. Ond fel cyrff annibynnol gyda blaenoriaethau ar wahân mae'n anodd cael y lefel angenrheidiol o gyd-gysylltu, yn enwedig gan fod angen i'r cyd-gysylltu yma dreiddio i lawr i'r lefel leol.

Rydym yn bwriadu archwilio'r posibiliadau ar gyfer sefydlu un corff hyrwyddo gyda chyfrifoldeb am godi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae arian y Loteri wedi'i gyflawni'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Nod corff o'r fath fyddai rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynlluniau a gefnogwyd gan arian y Loteri a thrwy hynny helpu i gynnal hyder yn y Loteri – yn enwedig er mwyn annog pobl i barhau i brynu tocynnau a chefnogi achosion da. Fe allai helpu hefyd wrth annog pobl i wneud cais am arian y Loteri – yn enwedig mewn ardaloedd nad ydynt wedi gwneud cystal – trwy roi cyhoeddusrwydd i'r math o brosiectau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Byddai wrth reswm yn bwysig i gorff o'r fath beidio â dyblygu gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan ddosbarthwyr unigol a chan Camelot er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r achosion da. Ac efallai y dylid canolbwyntio'r sylw ar weithgaredd ar y cyd yn hytrach na chorff ar wahân, gyda dosbarthwyr, Camelot a'r Llywodraeth yn datblygu ffyrdd gwell o weithio â'i gilydd i hyrwyddo'r Loteri.

Byddai angen hefyd i ni ystyried sut y gellid ariannu gweithgareddau hyrwyddo neu gorff hyrwyddo ar y cyd, a faint o'r arian a godir gan y Loteri y dylid ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth yn y ffordd yma.

A oes yno achos dros sefydlu gweithgareddau hyrwyddo ar y cyd?

Os felly, ai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai sefydlu corff ar wahân? Neu trwy gydweithio agosach rhwng Camelot a'r dosbarthwyr?

2.4 Diwrnod Cenedlaethol y Loteri

Un ffordd o godi ymwybyddiaeth o achosion da y Loteri a helpu i annog ceisiadau fyddai Diwrnod Cenedlaethol y Loteri, a allai ddod yn ffocws blynyddol i'r Loteri a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Fe allai hyn olygu ymgyrch hyrwyddo fyddai'n canolbwyntio ar brosiectau lleol, rhaglen o ddigwyddiadau cenedlaethol, efallai gyda mudiadau/atyniadau sydd wedi cael arian gan y Loteri yn cynnig gostyngiad neu fynediad am ddim i'r cyhoedd, ac efallai cystadleuaeth arbennig wedi'i threfnu gan Camelot, fel ddigwyddodd gyda'r Jiwbilî Aur.

A fyddai 'Diwrnod Cenedlaethol y Loteri' blynyddol yn ddefnyddiol wrth godi ymwybyddiaeth?

Beth ddylai hyn ei olygu a pha gyrff neu sefydliadau ddylai ei roi ar waith?

2.5 Ymgynghori

Mae rhoi fwy o ran i'r gymuned wrth bennu blaenoriaethau yn hanfodol nid yn unig er mwyn sicrhau ymrwymiad y gymuned ond hefyd i sicrhau bod rhaglenni'r Loteri yn cwrdd ag anghenion gwirioneddol. Mae'r Llywodraeth wedi gwarantu y bydd y canrannau o arian y Loteri sy'n mynd at y celfyddydau, treftadaeth, elusennau a chwaraeon yn parhau fel y maent tan o leiaf 2009, ond mae lle sylweddol o fewn pob achos da i'r cyhoedd ddylanwadu ar y ffordd y mae'r arian yn cael ei wario.

Wrth gwrs mae yna wahaniaeth clir rhwng ymgynghori â phobl ar faterion eang ac ariannu blaenoriaethau a'r broses wirioneddol o gymryd penderfyniadau ynghylch prosiectau penodol. Efallai fod yno gefnogaeth eang i ymgynghoriad a fyddai'n gofyn i bobl nodi'r mathau o brosiectau yr hoffent eu gweld yn cael cefnogaeth yn eu hardaloedd. Ar y llaw arall fe allai ymarfer fyddai'n gofyn i bobl ddewis rhwng ceisiadau penodol godi pryderon am arbenigedd ac agwedd ddiduedd.

Mae dosbarthwyr eisoes yn ymgynghori'n eang ar eu cynlluniau strategol ac maent yn gynyddol yn cynnwys cymunedau wrth lunio rhaglenni penodol. Mae lle fodd bynnag i ddatblygu hyn ymhellach. Un posibilrwydd fyddai cynnal refferenda lleol er mwyn darganfod blaenoriaethau lleol, gan ganolbwyntio o bosib ar ardaloedd lle nad oes llawer o geisiadau am arian Loteri. Gellid gofyn i bobl am eu blaenoriaethau ar gyfer eu hardal, a fyddent am weld yr arian yn cael ei wario ar brosiectau cyfalaf lleol neu grantiau refeniw, pa grwpiau lleol sydd angen eu targedu a beth yw anghenion pobl ifanc yn eu hardal leol. Un dull o wneud hyn fyddai rhyw fath o ddull holi barn wedi'i leoli mewn siopau sy'n gwerthu nwyddau'r Loteri.

Ymysg enghreifftiau eraill o ymgynghori â chymunedau fyddai'r canlynol:

- Defnyddio 'Paneli Dinasyddion' lle maent ar gael er mwyn ymgorffori barn leol ym mhroses dosbarthu'r Loteri. Mae Paneli Dinasyddion yn cynnwys sampl sylweddol o ddinasyddion (fel rheol rhwng 600 a 2,500) ac maent yn gynrychioladol o'r boblogaeth berthnasol. Defnyddir y paneli fel ffordd o synhwyro barn am opsiynau neu gynigion penodol, i asesu gwasanaethau lleol a datblygu barn am anghenion ac amcanion y dyfodol.
- Cynadleddau neu weithdai ar gyfer grwpiau penodol, megis plant a phobl ifanc, i'w cynnwys yn y gwaith o gynllunio, datblygu a gweithredu rhaglenni.

Mae prosiect First Light y Cyngor Ffilmiau wedi ymwneud ag ystod o ddigwyddiadau ffilm plant a phobl ifanc yn Lloegr. Targedwyd y rhain at blant a phobl ifanc yn hytrach nag oedolion, sydd fel rheol yn cael mwy o ddylanwad ar bennu blaenoriaethau. Mae'r digwyddiadau wedi cynnwys symposiwm ar wneud ffilmiau gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu yn Birmingham, trafodaeth ar bobl ifanc a ffilm yn Senedd y Bobl Ifanc a digwyddiad pobl ifanc a theledu a drefnwyd gan BAFTA. Mae'r digwyddiadau hyn yn agor trafodaethau beirniadol am faterion sy'n ymwneud â gwneud ffilmiau gan ac ar gyfer pobl ifanc ac maent yn bwydo i mewn i strategaethau First Light ar gyfer datblygu, cryfhau a dathlu'r maes yma trwy ganiatáu i bobl ifanc eu hunain ddylanwadu ar gyfeiriad cyffredinol y cynlluniau.

Byddai'n bwysig archwilio a fyddai unrhyw drefniadau newydd dan ystyriaeth yn ychwanegu'n anghymesur ar gostau gweinyddu neu oedi wrth ddosbarthu arian i achosion da.

A oes angen i Ddosbarthwyr y Loteri a/neu'r Llywodraeth ymgynghori'n fwy eang nag a wneir ar hyn o bryd ynghylch sut y dylid gwario arian y Loteri? Os felly, sut ddylid gwneud hynny?

2.6 Cynnwys y cyhoedd mewn pwyllgorau dyfarnu cenedlaethol a rhanbarthol

Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau am geisiadau ar gyfer arian gan y Loteri yn cael eu gwneud gan bwyllgorau dyfarnu ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Mae'n amlwg bod angen i'r pwyllgorau gynnwys aelodau sydd â gwybodaeth arbenigol o'r achos da perthnasol, ond mae lle i ddadlau dros gynnwys rhai aelodau sy'n fwy cynrychioladol o'r gymuned ac mae llawer o ddosbarthwyr yn gwneud hynny. Fe all y rhain fod yn gynrychiolwyr lleol etholedig, neu'n aelodau o'r cyhoedd a ddewiswyd trwy broses gyfweld, neu hyd yn oed wedi'u dewis ar hap.

Mae pob aelod o bwyllgorau gwledydd a rhanbarthau Cronfa Treftadaeth y Loteri yn aelodau o'r cyhoedd a benodwyd yn dilyn hysbyseb gyhoeddus agored a chyfweliad. Profiad a brwdfrydedd ar gyfer treftadaeth yw'r meini prawf allweddol, yn hytrach na gwybodaeth arbenigol.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn dewis un neu ddau o aelodau o bob un o Bwyllgorau Dyfarnu Rhanbarthol Lloegr ar hap o'r rhestr etholwyr. Mae'r dull yma yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd na fyddent fel arfer yn rhoi eu hunain ymlaen ar gyfer penodiad cyhoeddus i ymwneud â'r broses o ddyfarnu grantiau.

Awgrymwyd y byddai cynyddu nifer y cynrychiolwyr democrataidd, megis cynghorwyr, ar bwyllgorau dyfarnu arian yn ffordd o gynyddu cyfranogiad y gymuned. Er enghraifft awgrymodd y Papur Gwyn diweddar ar lywodraeth ranbarthol yn Lloegr, "Your Region, Your Choice", y byddai unrhyw gynulliad rhanbarthol yn y dyfodol yn cael gwahoddiad i enwebu aelodau pwyllgorau dyfarnu arian rhanbarthol y Loteri.

A yw cyrff dyfarnu rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol yn gweithio'n dda, neu a oes lle i gyflwyno elfen o benodiadau mwy democrataidd iddynt?

Os felly sut ddylid penodi'r 'cynrychiolwyr' cymunedol hyn?

2.7 Cymryd penderfyniadau yn lleol

Mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir rhwng cymryd penderfyniadau yn lleol ynglŷn â blaenoriaethau lleol a'r angen am ddull gweithredu strategol sy'n rhoi ystyriaeth i gynlluniau awdurdod lleol a rhanbarthol, a chynlluniau cenedlaethol ehangach. Er enghraifft, er ei bod yn iawn cymryd penderfyniadau ynghylch prosiectau mawr cenedlaethol neu raglenni ar draws y DU ar lefel genedlaethol, mae yr un mor bwysig bod penderfyniadau sy'n effeithio ar ranbarth benodol yn cael eu cymryd, lle bynnag y mae hynny'n bosib, gan y bobl sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny yn rhinwedd eu gwybodaeth leol. Mae penderfyniadau ynghylch arian y Loteri yn gynyddol yn cael eu cymryd ar lefel ranbarthol yn hytrach na chenedlaethol gan bwyllgorau dyfarnu rhanbarthol sydd wedi'u lleoli yn yr ardal. Mae hyn yn gweithio'n dda gan fod pwyllgorau rhanbarthol mewn lle da i adnabod anghenion a blaenoriaethau lleol o fewn eu rhanbarth heb golli golwg ar y darlun strategol ehangach.

Efallai fod lle, fodd bynnag, yn enwedig ar gyfer rhai o'r dyfarniadau a'r cynlluniau llai, i ddirprwyo penderfyniadau i lefel leol. Byddai angen i ni gadw mewn cof y posibilrwydd bod costau gweinyddu uwch yn gysylltiedig â sefydliadau pennu grantiau llai ac y gallai cynyddu haenau gwneud penderfyniadau ei gwneud yn anodd gwybod at bwy yn union i wneud cais. Yn yr un modd fe allai datganoli penderfyniadau ddileu'r elfen o annibyniaeth a brofir gan bwyllgorau dyfarnu rhanbarthol.

Er hynny, fe allai caniatáu i ardaloedd lleol ddylanwadu ar y ffordd y mae arian y Loteri yn cael ei wario yn eu hardal helpu i sicrhau bod dyfarniadau yn adlewyrchiad cywir o flaenoriaethau lleol, yn ogystal â helpu i greu ymdeimlad o berchnogaeth lleol o'r prosiectau a'r rhaglenni hynny a fu'n llwyddiannus wrth gael arian gan y Loteri. Fe allai'r galw am ddatganoli lleol amryw rhwng ardaloedd, a rhwng dosbarthwyr, ond byddem yn croesawu ystyriaeth i hyn, yn enwedig ar gyfer ardaloedd lle na chafwyd llawer o geisiadau am arian y Loteri.

Mae yna amryw o ffyrdd lle gallai ardaloedd lleol ddylanwadu ar benderfyniadau:

- Adnabod dyraniadau arian lleol er mwyn i bartneriaethau lunio portffolio prosiectau yn eu herbyn, fel sy'n digwydd er enghraifft, gyda llawer o raglenni'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, yn cynnwys eu rhaglen Addysg Gorfforol a chwaraeon cyfredol. Mae'r dull gweithredu yma'n gosod arian y Loteri yn gadarn o fewn fframwaith polisïau adfywio'r Llywodraeth, a gyflenwir trwy gyfrwng Adnewyddu Cymdogaeth a'r Partneriaethau Strategol Lleol, sy'n cymryd rôl gynyddol wrth bennu blaenoriaethau yn lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n agored i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn unig gan nad oes gan unrhyw gorff arall yr hawl i gyflenwi arian trwy ddyraniadau yn ogystal ag mewn ymateb uniongyrchol i geisiadau.
- Sefydlu Pwyllgorau Dyfarnu Lleol – system o baneli dyfarnu ar lefel is-ranbarthol. Byddai'r rhain yn ddrud i'w gweinyddu ond fe allent fod werth chweil mewn ardaloedd o amddifadedd sylweddol neu ariannu isel iawn.
- Dirprwyo grantiau ymbarél i sefydliadau lleol a fyddai wedyn yn dosbarthu arian ar gyfer anghenion lleol. Unwaith eto byddai yma faterion yn ymwneud â chostau gweinyddu ychwanegol, a byddai angen sefydlu trefniadau atebolrwydd cadarn a thryloyw.

Pa mor effeithiol yw dulliau cyfredol dosbarthwyr o lunio asesiadau anghenion lleol, ac ym mha ffordd y gellid eu gwella?

A oes yno alw am ddatganoli mwy o benderfyniadau am arian y Loteri i lefel leol? Os felly ym mha ffordd y gellid cyflawni hyn?

A ddylid rhoi'r gallu i ddosbarthwyr eraill ar wahân i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddyrannu arian ar lefel leol yn hytrach na dibynnu ar geisiadau yn unig?

2.8 Grantiau micro

Rhaglen Loteri yw 'Arian i Bawb' sy'n rhoi grantiau o rhwng £500 a £5000 o bot ar y cyd o gronfeydd Loteri y bydd pob dosbarthwr yn cyfrannu iddo[6]. Mae'n boblogaidd a llwyddiannus oherwydd ei bod yn hawdd gwneud cais am yr arian ac oherwydd bod penderfyniadau ar y ceisiadau yn cael eu gwneud yn gyflym (fel rheol o fewn 12 wythnos). Mae penderfyniadau, fodd bynnag, yn cael eu gwneud ar lefel ranbarthol yn hytrach na lefel leol.

6 Ac eithrio Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru.

Rydym yn argymell bod grantiau llai, i fyny at £500 o bosib, yn cael eu cyflenwi ar lefel mwy lleol, ar yr amod bod modd cyflenwi hyn mewn ffordd ddigon syml i gadw costau gweinyddu o dan lefel yr arian a ddyrannwyd. Er y byddai'r symiau dan sylw yn gymharol fach fe fyddai ganddynt y potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ar lefel leol, yn enwedig pe bai'r arian yn gallu cael ei ryddhau'n sydyn trwy gyfrwng proses syml o gyflwyno cais. Fe allai'r galw am grantiau micro amrywio rhwng achosion da gwahanol.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn rhedeg cynllun o'r enw 'Cist Cymunedol' sy'n dyfarnu grantiau o hyd at £750. Bwriad y gronfa hon yw cefnogi gweithgareddau ar lefel leol a fydd yn cynyddu cyfranogiad a gwella safonau perfformiad mewn chwaraeon yn enwedig ymysg plant. Mae'r prosiectau wedi'u bwriadu i ddarparu cyfleoedd newydd neu well mewn chwaraeon. Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg ar y cyd â'r 22 Awdurdod Lleol ar draws Cymru.

O gofio swm bychan y grantiau, byddai gofyn cadw costau gweinyddu'n isel er mwyn i'r cynllun fod yn werth chweil. Un ffordd o wneud hyn fyddai i ddosbarthwyr roi symiau o arian i'w ddosbarthu gan gyrff eraill. Fe allai hyn fod yn fwy cost effeithiol ac fe allai olygu bod penderfyniadau am ariannu yn cael eu cymryd ar lefel mwy lleol.

Mae 'Cronfa Adnoddau Cymunedol' y Swyddfa Gartref, a sefydlwyd ym 1999, yn dyfarnu grantiau o hyd at £500 i gyrff lleol yn Lloegr ac fe'i gweinyddir ar lefel leol gan asiantau megis y Sefydliadau Cymunedol. Mae'r ardaloedd a ddewisir at ei gilydd o faint wardiau etholiadol neu llai. Nid yw amryw ohonynt yn cael eu nodi fel rheol mewn proffiliau cenedlaethol o amddifadedd oherwydd eu bod yn bocedi o amddifadedd difrifol o fewn ardaloedd mwy ffyniannus.

Y mater pwysicaf yma yw pa sefydliadau fyddai dosbarthwyr yn eu dewis fel sefydliadau partner. Efallai fod yna wersi i'w dysgu o arfer dda mewn rhannau eraill o'r Llywodraeth, megis Cronfa Adnoddau Cymunedol y Swyddfa Gartref.

A fyddai sefydlu cynllun grantiau micro yn syniad da? Beth fyddai manteision neu anfanteision cynllun o'r fath?

Pe bai cynllun grantiau micro yn cael ei sefydlu pa fath o gyrff neu sefydliadau fyddai'n ei weinyddu?

Adran 3: Sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu'n fwy teg ar draws holl ardaloedd a chymunedau y DU

3.1 Rhagarweiniad

Ein polisi yw annog dosbarthiad teg o arian y Loteri ar draws y DU. Mae'r Arolwg yn darparu cyfle i ystyried pa mor llwyddiannus yr ydym yn cyflawni'r nod yma. Nid yw dosbarthiad cydradd o reidrwydd yn golygu bod pob sir neu etholaeth yn derbyn yr un swm yn union. Credwn fod angen rhoi sylw arbennig i anghenion ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol a grwpiau cymdeithasol difreintiedig ac mae tystiolaeth bod rhai mewn ardaloedd o angen yn cael trafferth penodol i gael mynediad at arian y Loteri. Oherwydd hynny rydym wedi gofyn i ddosbarthwyr dargedu ardaloedd a chymunedau o eithrio cymdeithasol, ac yn gymesur â hynny mae mwy o arian y Loteri yn mynd i ardaloedd lle ceir mwy o angen.

Mae'n rhaid i ddosbarthwyr hefyd ddefnyddio arian i ddelio ag anghenion eu hachosion da penodedig a nodwyd ganddynt. Er enghraifft mae Sport England wedi nodi anghenion chwaraeon penodol rhannau gwahanol o'r wlad ac yn dosbarthu arian yn unol â hynny.

Mae rhywfaint o amrywiad yn yr ariannu yn anorfod gan fod prif ganolfannau poblogaeth yn tueddu i ddenu'r prosiectau cyfalaf mwyaf, er nad y nhw yw'r unig rai sy'n elwa o hynny. Bydd theatr neu amgueddfa canol tref neu ddinas yn gwasanaethu ardal gyfagos llawer ehangach. Er enghraifft, mae'r Tate Modern yn Llundain a Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mewn sawl achos rhoddir grant i sefydliad sydd â'i bencadlys mewn tref neu ddinas arbennig, ond sy'n darparu gwasanaeth ar draws rhanbarth gyfan. Efallai bydd gan rhai ardaloedd ystod da iawn o gyfleusterau celfyddydol neu chwaraeon ac o'r herwydd mae'n llai tebygol y bydd angen am ganolfan hamdden neu theatr newydd, ac mewn ardaloedd eraill efallai y bydd yno sector gwirfoddol lleol ffyniannus eisoes sydd â mynediad da at ffynonellau arian eraill. Mae'n glir, fodd bynnag, hyd yn oed o ystyried y ffactorau hyn, bod rhai ardaloedd o'r DU yn colli allan ar arian y Loteri.

Y broblem yn aml iawn yw nad yw ardaloedd arbennig yn cyflwyno llawer o geisiadau ar gyfer arian y Loteri, neu'n gwneud cais am symiau bychan, ac er bod canran eu llwyddiant yn uchel, nid ydynt yn gwneud cystal ag ardaloedd eraill sydd wedi cyflwyno mwy o geisiadau. Nododd ymchwil yn ardaloedd y meysydd glo[7] bedwar prif reswm pam na wnaeth pobl gais am arian y Loteri, neu wedi cyflwyno cais aflwyddiannus: yn aml iawn nid oedd pobl yn ymwybodol o gyfleoedd ariannu, neu'n teimlo 'nad rhywbeth i mi' yw'r Loteri; roedd y broses yn rhy gymhleth i rai nad oeddent yn gyfarwydd â gwneud ceisiadau am arian; nid oedd rhai cymunedau yn meddu ar yr arbenigedd na'r arian i sefydlu a chynnal prosiectau; ac roedd yn anodd cyfuno ffynonellau ariannu gwahanol gyda blaenoriaethau ac amserlenni gwahanol.

7 Improving Lottery Funding Access and Delivery in the British Coalfields, CRESR Sheffield Hallam University, Mawrth 2000.

Mae dosbarthwyr yn ymwybodol o'r angen i annog ceisiadau gan ardaloedd a grwpiau nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus ac maent yn gynyddol yn targedu eu harian ar ardaloedd o angen. Nodir rhai dewisiadau ar gyfer adeiladu ar y cynnydd a gafwyd hyd yn hyn isod a byddem yn croesawu sylwadau ar sut y gallai'r rhain weithio ac ym mha ffordd. Byddem hefyd yn croesawu awgrymiadau eraill, yn enwedig gan y rhai sydd â phrofiad o wneud ceisiadau am arian y Loteri.

3.2 Adeiladu ar Allu

Gan fod arian y Loteri yn cael ei ddyfarnu yn ôl teilyngdod, mae'n dibynnu ar ansawdd y ceisiadau a daeth i law. Mewn rhai ardaloedd mae gofynion ceisiadau wedi bod yn rhwystr i grwpiau lleol ac mae angen cymorth ar rai grwpiau i ganfod sut y gall y Loteri gwrdd â'u hanghenion ynghyd â help hefyd wrth lunio cais. Ar hyn o bryd, mae yno nifer o fecanweithiau cefnogi ffurfiol ac anffurfiol gwahanol ar gael i annog a helpu ymgeiswyr posib am arian y Loteri.

Mae swyddogion Loteri neu ariannu allanol awdurdodau lleol yn chwarae rôl werthfawr wrth annog a chynghori ynghylch ceisiadau o'u cymunedau. Mae'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi gweithio â Chymdeithas Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden (CCLOA), gan gynhyrchu arweiniad ar ledaenu arfer gorau wrth annog a chefnogi ymgeiswyr am arian y Loteri yn Lloegr[8].

Mae dosbarthwyr y Loteri eu hunain yn gwneud amrediad o waith ymgynghorol a datblygu ar lefel genedlaethol, a thrwy eu swyddogion datblygu rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau, gweithdai, seminarau a chyfarfodydd briffio ymgynghorol ar gyfer ymgeiswyr posib am arian y Loteri.

Daeth dosbarthwyr y Loteri ynghyd ar gyfer digwyddiad dosbarthwyr ar y cyd yn Great Yarmouth yn Chwefror 2002. Cododd y syniad ar gyfer y digwyddiad o gyfres o gydgyfarfodydd rhwng dosbarthwyr y rhanbarth fel ffordd o gwrdd â thargedau a blaenoriaethau ar y cyd. "Man ariannu oer" yw Great Yarmouth i lawer o ddosbarthwyr ac mae gan yr ardal awdurdod lleol y lefelau uchaf o amddifadedd yn Nwyrain Lloegr. Bwriad y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ariannu, dathlu lwyddiannau lleol ac adeiladu ar allu. Yn ogystal â dosbarthwyr y Loteri mynychwyd y digwyddiad hefyd gan yr awdurdod lleol ac ymgeiswyr llwyddiannus oedd yn gallu rhannu eu profiadau.

Yn ogystal â stondinau gwybodaeth, roedd dosbarthwyr hefyd yn cynnal gweithdai a chynnig sesiynau cynghori un-i-un. Roedd yn gyfle ardderchog i ddosbarthwyr roi cyngor cyn cyflwyno cais ar gyfer prosiectau, gan helpu i hau hadau diddordeb a dechrau adeiladu ar allu yn yr ardal. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da a thrwy rannu gwybodaeth a dealltwriaeth ar y cyd o anghenion mae'n bosib bod yma fodel ar gyfer ardaloedd targedau ar y cyd eraill.

8 Local Authorities and the Lottery – Maximising Opportunities, Mehefin 2001 www.culture.gov.uk

Mae yno hefyd nifer o gyrff cyfryngol, yn bennaf o'r sector gwirfoddol, sydd wedi rhoi eu hunain mewn sefyllfa i roi cyngor ar arian gan y Loteri, gyda rai ohonynt yn canolbwyntio ar ardal arbennig neu gymuned o ddiddordeb.

> Mae Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo (CISWO), a ariannwyd gan y Gronfa Gymunedol, wedi helpu elusennau lles i sefydlu eu hunain fel siopau-un-stop yn ardaloedd y meysydd glo. Ar hyn o bryd mae 25 o elusennau lles glowyr yn ailddatblygu eu hunain fel Siopau-Un-Stop.

Er hynny, mae'r ddarpariaeth o gyngor a chefnogaeth yn aml yn anghyson. Nid oes Swyddog Loteri ym mhob awdurdod lleol, ac nid yw ansawdd y cyngor a'r gwasanaeth a roddir ganddynt yn gyson uchel bob tro. Mae'r cyrff a'r rhwydweithiau gwirfoddol sy'n gallu helpu ceisiadau ar gyfer arian y Loteri yn aml yn fach, ac y brin o adnoddau er mwy gallu cyflawni'r swyddogaeth hon. Mae'r hyn a gynigir gan y dosbarthwyr eu hunain o safbwynt cyngor, gwaith allanol a datblygu yn amrywio o ran dyfnder ac ansawdd.

Efallai fod lle i ddosbarthwyr ariannu mwy o gyrff allanol i adeiladu ar allu mewn ardaloedd lle nodwyd yr angen hwnnw. Fe allent hefyd ymuno â'i gilydd ac arianwyr eraill i ddatblygu ffyrdd mwy effeithlon a chost effeithiol o adeiladu ar allu.

A ddylai adeiladu ar allu fod yn ddarpariaeth i bawb neu a ddylid ei dargedu ar gyfer ardaloedd neu grwpiau penodol?

Pa gyfran o arian y Loteri sy'n rhesymol i'w wario ar gyngor a chefnogaeth ar gyfer ymgeiswyr posib?

Beth yw'r ffordd orau o ddarparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau? Trwy ddosbarthwyr? Awdurdodau Lleol? Neu grwpiau eraill, megis elusennau, cyrff gwirfoddol neu hwyluswyr o'r sector preifat?

3.3 Targedu ardaloedd a grwpiau

Mae targedu ariannu yn ffordd effeithiol o gynyddu cyfran ardal neu grŵp o arian y Loteri, er bod angen i hynny fynd law yn llaw â gwaith datblygol ac adeiladu ar allu i fanteisio'n llawn ar dargedu o'r fath. Bellach mae llawer o ddosbarthwyr y Loteri yn darparu rhaglenni ariannu ynghyd â dull gweithredu wedi'i dargedu gyda'r nod deublyg o dargedu amddifadedd a lleihau'r amrywiaeth mawr mewn ariannu sy'n bod ar hyn o bryd.

Un dull gweithredu yw targedu adnoddau ychwanegol er mwyn adeiladu ar allu mewn maes penodol, gweithio â mudiadau lleol i'w hannog i gyflwyno ceisiadau a datblygu sgiliau a phrofiad er mwyn gwella ansawdd ceisiadau a'r gallu i redeg prosiectau a rhaglenni llwyddiannus. Mae lefel gwirioneddol yr arian a roddir i ardal yn dibynnu ar gyflwyno ceisiadau llwyddiannus o ansawdd da, er bod adnabod yr arian sydd ar gael a phennu targed dangosol yn gallu bod o gymorth i gymhelliant. Dyma oedd y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan "Brass for Barnsley".

Dechreuodd Brass for Barnsley yn Ebrill 1999 pan ddewiswyd Barnsley fel cartref ar gyfer y Cynllun Ardaloedd Blaenoriaeth cyntaf, cynllun gan y Gronfa Gymunedol a fwriadwyd i gynyddu nifer ac ansawdd y ceisiadau o ardaloedd dynodedig. Dewiswyd Barnsley oherwydd fod y dref wedi derbyn tipyn llai o arian gan y Bwrdd nag a haeddai o gofio ei safle ar y Mynegai Amddifadedd Lleol. Darparwyd £3 miliwn o'r gyllideb grantiau rhanbarthol gan y Gronfa Gymunedol ar gyfer Barnsley dros y tair blynedd tan 2002. Gweithiodd swyddogion rhanbarthol y Gronfa Gymunedol mewn partneriaeth ag asiantaethau datblygu lleol i gynyddu swm yr arian a roddwyd gan y Bwrdd i gyrff gwirfoddol a chymunedol lleol ym Mwrdeistref Metropolitan Barnsley. Fel y bu, dosbarthwyd y £3 miliwn i gyd yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun gan roi hwb sylweddol i gyfran Barnsley o'r Loteri, sef £1.5 miliwn yn unig yn nhair blynedd cyntaf y Loteri.

Mae'r cynllun Cyfran Deg, a lansiwyd yn gynharach eleni, yn gynllun sy'n targedu ardaloedd penodol yn ôl fformwla sy'n seiliedig ar gyfuniad o lefelau uchel o amddifadedd a lefelau isel o arian gan y Loteri. Mae'r cynllun wedi'i reoli ar y cyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol a bydd yn cyflenwi £168 miliwn dros y tair blynedd nesaf i 62 o ardaloedd.

Mae'r dull gweithredu yma'n sicrhau bod arian yn cyrraedd yr ardaloedd neu'r grwpiau hynny a dargedwyd. Fodd bynnag, mae perygl y bydd arian y Loteri yn cael ei glymu mewn ffordd sy'n cyfyngu'n ormodol gan arwain at gwestiynau ynghylch ansawdd ceisiadau, a thegwch a chydraddoldeb gydag ardaloedd eraill na chafodd eu targedu.

This approach ensures that funding gets into those areas or groups which have been targeted. However it risks tying up Lottery funding in an unduly restrictive way and could give rise to questions about the quality of applications, and about fairness and equity with other, non-targeted areas.

Mae strategaeth Loteri Sport England yn dynodi £750 miliwn dros 10 mlynedd i ariannu datblygiad chwaraeon mewn ardaloedd blaenoriaeth. Nododd Sport England 12 o Barthau Gweithredu Chwaraeon a lansiwyd yn swyddogol gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Ionawr 2000. Mae'r Parthau hyn yn darparu ymateb uniongyrchol i'r angen i ddelio ag amddifadedd chwaraeon mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Mae parthau Gweithredu Chwaraeon yn ymwneud mwy â phobl nag adeiladau ac mae cefnogaeth Sport England yn canolbwyntio ar swyddogion datblygu chwaraeon a chymunedol, hyfforddwyr ac arweinwyr chwaraeon a gweithwyr eraill sy'n gweithio yn y gymuned. Bydd y parthau yn profi ffyrdd newydd o weithio a phartneriaethau newydd a fydd o fudd i chwaraeon yn Lloegr yn y dyfodol. Bwriedir nodi 18 Parth Gweithredu Chwaraeon pellach ar ddiwedd 2002.

A ddylid targedu arian ar lefel awdurdod lleol, ward neu etholaeth?

I ba raddau y dylid osgoi targedu ffynonellau ariannol gwahanol at yr un ardaloedd?

A ddylem ofyn i ddosbarthwyr dargedu arian er mwyn sicrhau nad yw un ardal yn derbyn llai na chanran benodol o dan y lefel gyfartalog o ariannu?

A yw neilltuo arian ar gyfer ardaloedd neu grwpiau arbennig yn mynd yn groes i egwyddor cystadleuaeth deg ac agored? A yw'n well gosod targedau dangosol, rhywbeth i anelu ato?

Pa gyfran o arian y Loteri sy'n briodol i'w neilltuo ar gyfer targedu?

3.4 Ceisiadau

Pryder cyffredin yn y gorffennol fu cymhlethdod a diffyg tryloywder ceisiadau am arian gan y Loteri. Gwelwyd hyn fel anhawster arbennig ar gyfer grwpiau llai oedd yn llai tebygol o fod yn brofiadol wrth wneud ceisiadau am arian. Gwnaed nifer o argymhellion mewn adroddiad gan y Tîm Safonau, Effeithlonrwydd ac Ansawdd (QUEST) annibynnol a gyhoeddwyd yn Awst 2000[9] gyda golwg ar wella trefniadau ymgeisio ac asesu ar gyfer grantiau hyd at £100,000 er mwyn ysgafnhau'r baich gweinyddol ar grwpiau llai oedd yn ymgeisio am grantiau. Croesawyd yr adroddiad gan ddosbarthwyr y Loteri ac maent eisoes wedi gwneud llawer i weithredu'r argymhellion.

Mewn sawl achos mae dosbarthwyr wedi symleiddio'r trefniadau ymgeisio am grantiau llai. Er enghraifft, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi cyflwyno ffurflen gais syml ar gyfer grantiau cyfalaf o dan £50,000 ac yn Ebrill 2001 lansiwyd rhaglen grantiau newydd gan y Gronfa Gymunedol ar gyfer dyfarnu arian hyd at £60,000 wedi'i seilio'n agos ar y rhaglen Arian i Bawb, gyda ffurflen gais fyrrach a symlach ac amser prosesu cyflym. Nodwyd symleiddio'r broses o gyflwyno ceisiadau fel prif amcan gan Gyngor Celfyddydau Lloegr wrth lansio Rhaglen Celfyddydau Rhanbarthol y Loteri. Mae hyn yn defnyddio ffurflen un tudalen ar ddeg ar gyfer dyfarniadau sy'n gallu amrywio o £2,000 i dros £200,000 ac mae'n cynnwys cefnogaeth i brosiect am dair blynedd yn ogystal â dyfarniadau cyfalaf hyd at £100,000 a chefnogaeth drefniadol mewn un grant.

Roedd ail adroddiad gan QUEST, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2002, yn canolbwyntio ar geisiadau am grantiau dros £100,000. Nododd yr adroddiad bedair eitem allweddol ar gyfer ymgeiswyr: yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau; yr angen am fwy o gyfathrebu a thryloywder yn ystod y broses; yr angen am fwy o hyblygrwydd, fel bod prosesu ceisiadau yn briodol i ofynion prosiectau unigol; a'r angen am gefnogaeth wrth gyflwyno ceisiadau, yn enwedig o safbwynt y rhai oedd yn gweud cais i'r Loteri am y tro cyntaf. Gwnaed deg argymhelliad penodol gan yr adroddiad i'w hystyried gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a dosbarthwyr, yn cynnwys cynyddu'r lefelau dirprwyo, cyflwyno mwy o hyblygrwydd wrth brosesu ceisiadau a gwella mecanweithiau ar gyfer cefnogaeth ac adborth i ymgeiswyr. Rhoddwyd croeso cyffredinol i'r adroddiad ac mae'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r dosbarthwyr ar hyn o bryd yn ystyried yr argymhellion.

9 A Review of Lottery Application Processes – A Report to the Secretary of State for Culture, Media and Sport from the Quality, Efficiency and Standards Team, Awst 2000.

3.5 Un ffurflen gais

Mae dosbarthwyr hefyd wedi edrych ar y posibilrwydd o gynhyrchu un ffurflen gais gyffredin ar gyfer yr holl ddosbarthwyr, ar gyfer grantiau llai o leiaf, fel sy'n digwydd gydag Arian i Bawb. Yr ymateb cyntaf i hyn yw na fyddai o gymorth mawr yn y rhan fwyaf o achosion oherwydd fod y wybodaeth angenrheidiol yn amrywio o raglen i raglen. Efallai fod yno fanteision er hynny mewn datblygu un ffurflen gais mewn achosion lle mae prosiect yn ymgeisio am arian oddi wrth fwy nag un dosbarthwr ac mae bwriad i dreialu hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

Mae'r Gronfa Gymunedol, Sport England a Chyngor Celfyddydau Lloegr ar fin treialu cynllun ar gyfer uwchraddio ac adnewyddu neuaddau cymunedol amlbwrpas yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Yn y gorffennol mae meini prawf ariannu gwahanol wedi bod yn faen tramgwydd sylweddol i rai oedd yn gorfod cyflwyno cais i fwy nag un dosbarthwr. Bydd y cynllun yn hwylus i'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau gyda dosbarthwyr y Loteri yn hytrach na'r ymgeiswyr yn penderfynu ar y rhaniad arian. Bydd y cynllun yn cynnwys proses "un drws ffrynt" ar gyfer cyflwyno cais a hyrwyddir trwy becyn cais y Gronfa Gymunedol, ac fe gyflwynir bidiau ar ffurflenni cais y Gronfa Gymunedol. Bydd y cynllun yn cael ei bwyso a'i fesur yn ofalus a phe bai'n llwyddiannus fe allai gael oblygiadau cadarnhaol ar gyfer meysydd eraill a chynlluniau eraill.

Beth yw'r materion sy'n gysylltiedig â chynhyrchu ffurflen gais unigol ar gyfer rhai rhaglenni Loteri penodol? Beth yw'r galw am hyn gan y rhai sy'n cyflwyno ceisiadau?

3.6 Ffurflenni cais electronig

Mae amryw o ddosbarthwyr yn cynnig ffurflenni cais electronig y gellir eu lawrlwytho a'u cwblhau ar gyfrifiadur personol yr ymgeisydd. Mae gan systemau o'r fath y potensial i gynnig nodiadau cymorth hwylus fel bod ceisiadau yn cael eu datblygu a'u cyflwyno'n electronig. Wrth gwrs mae'n bosib nad yw hyn o reidrwydd yn addas ar gyfer pob lefel o grant, lle gofynnir am wybodaeth gymhleth ychwanegol, ond efallai fod lle i ymestyn nifer y cynlluniau sy'n cynnig hyn, ar yr amod bod yno alw am y cyfleuster.

Mae rhai dosbarthwyr wedi mynd un cam ymhellach a datblygu ffurflenni cais ar-lein y gellir eu llenwi a'u cyflwyno'n electronig. Mae lle i ddatblygu'r gwasanaeth hwn ymhellach.

Daeth dros 3,000 o geisiadau am arian gan NESTA i law ers iddo gychwyn tair blynedd yn ôl, ac fe gyflwynwyd pob un o'r rhain ar-lein. Mae'r 'blaen-geisiadau' hyn yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at asesydd allanol priodol, sy'n gwneud argymhelliad ynghylch gwrthod y cais, gwahodd cais llawn neu ofyn am fwy o wybodaeth. Felly mae amser staff NESTA yn canolbwyntio ar y 10% o gynigion sy'n dod yn destun ceisiadau llawn (sydd hefyd yn cael eu cyflwyno ar-lein) a chanlyniad hyn yw lleihau niferoedd staff, ond cyflymu amseroedd prosesu ceisiadau.

A ddylai mwy o ddosbarthwyr datblygu ffurflenni cais electronig a chyflwyno'r cyfleuster i'w cyflwyno ar-lein?

A fyddai proses cyflwyno ceisiadau mwy 'rhyngweithiol' o gymorth?

3.7 Dosbarthwyr y Loteri fel buddsoddwyr

Yn gynyddol mae dosbarthwyr yn gweithredu fel buddsoddwyr yn hytrach nag arianwyr, gan weithio ag ymgeiswyr a'r rhai sydd wedi derbyn grant er mwyn sicrhau bod prosiectau yn llwyddo. Er enghraifft yn ei chynllun strategol newydd mae'r Gronfa Gymunedol yn awgrymu sut y gallai weithio'n llawer agosach ag ymgeiswyr a rhai sydd wedi derbyn grant i helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol o'r grantiau sy'n cael eu dyfarnu.

> Mae NESTA yn mabwysiadu dull gweithredu ymarferol tuag at ariannu. Maent wedi darganfod trwy weithio â grwpiau sydd wedi derbyn arian ganddynt er mwyn cyfarwyddo'r prosiectau, gallant ffurfio perthynas mwy agored a gonest trwy gyfrwng trefn fonitro. Mae yna gost ynghlwm â dull mentora o'r fath (er bod modd gwneud arbedion ar gostau monitro).

Yn amlwg, mae'n rhaid cadw rôl perchennog y prosiect a'r ariannwr ar wahân er mwyn cynnal y prosiect yn yr hir dymor yn ogystal â sicrhau bod y prosiect yn cael ei asesu'n briodol. Mae'n ymddangos bod dosbarthwyr yn rheoli'r rhyngwyneb yma mewn ffordd sensitif trwy gyweirio lefel eu hymwneud yn ôl natur y prosiect.

Mae rhai dosbarthwyr wedi cyflwyno proses dau gam i wneud cais, gan ganiatáu iddynt weithio'n agosach ag ymgeiswyr sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y cam cyntaf a'u helpu i gael canlyniad terfynol llwyddiannus. Mae rhai eraill wedi cyflwyno rhaglenni grant oedd yn cynnwys elfennau i ddarparu cymorth pen blaen gyda chynllunio prosiect ar gyfer ceisiadau llwyddiannus.

Fel rhan o'r broses hon mae'n amlwg yn bwysig bod ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael adborth adeiladol a manwl, oherwydd fe allai hynny eu helpu i fod yn llwyddiannus y tro nesaf. Mae dosbarthwyr eisoes yn darparu adborth ac maent yn gweithio ar y cyd i ddarparu safonau lleiafswm ar gyfer hyn. Er hynny mae'n bosib y byddai'n fwy synhwyrol i ddosbarthwyr ddarparu adborth yn gynharach yn y broses, yn hytrach nag aros tan fod y prosiect wedi cael ei wrthod. Fe allai hynny ganiatáu i ymgeiswyr adolygu eu cais yn gynt yn y broses ac, mewn rhai achosion, ail-lunio'r cais yn y gobaith o gynyddu'r posibilrwydd o lwyddiant.

A ddylai dosbarthwyr wario mwy er mwyn helpu prosiectau unigol i gael canlyniad llwyddiannus?

A fyddai hyn yn addas i bob rhaglen, neu a fyddai'n ychwanegu gormod at y costau gweinyddu?

A ddylid ystyried costau o'r fath fel costau gweinyddu – neu a ydynt yn rhan sylfaenol o'r prosiect?

A ddylai fod yno reolwr achos enwebedig ar gyfer pob cais dros ryw drothwy penodedig (fel yr awgrymwyd gan adroddiad QUEST) er mwyn rhoi eglurder a chysondeb o ran cyngor?

A ddylid rhoi mwy o adborth ar geisiadau ar gychwyn y broses?

3.8 Siopau-un-stop

Mae nifer toreithiog y dosbarthwyr a'r cynlluniau amrywiol sy'n dosbarthu arian y Loteri yn gallu creu dryswch, yn enwedig i'r rhai sy'n cyflwyno cais am y tro cyntaf. Fe allai un pwynt mynediad at gyngor (y "siop-un-stop") gynnig sawl mantais. Fe allai gynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Loteri, cynyddu nifer y ceisiadau a darparu ffordd hwylusach i fewn i'r broses. Er hynny nid yw'n debygol y byddai un math o wasanaeth cynghori yn gallu darparu ar gyfer pob ymgeisydd am arian gan y Loteri. Ni fydd ymgeiswyr sy'n brofiadol mewn cyflwyno ceisiadau am arian gan y Loteri yn debygol o fod angen yr un math o gymorth â'r rhai sy'n gwneud cais am y tro cyntaf. Mae'n debygol y byddai siop-un-stop o gymorth mwy i ymgeiswyr newydd am arian y Loteri, grwpiau cymunedol a rhai sy'n gwneud cais am grantiau cymharol fach.

Fe allai siopau-un-stop gymryd sawl ffurf:

- Rhwydwaith o swyddfeydd cynghori y Loteri – canolfannau galw i mewn ar gyfer rhai sy'n ystyried gwneud cais am grant gan y Loteri. Gellid lleoli'r rhain mewn prif ddinas ranbarthol neu mewn trefi mwy. Gallai cost menter o'r fath fod yn uchel fodd bynnag, a hyd yn oed wedyn efallai na fyddai'n llwyddo i gyrraedd ardaloedd llai sydd mewn angen neu ardaloedd anghysbell.
- Timau traws-ddosbarthwyr o ymgynghorwyr Loteri yn gweithredu'n symudol. Byddai hyn i bob pwrpas yn siop-un-stop heb un lleoliad parhaol. Byddai hyblygrwydd trefniant o'r fath yn helpu i sicrhau na fyddai unrhyw ardal dan anfantais oherwydd ei lleoliad daearyddol. Byddai'n gwneud ffurfiau o waith datblygu yn y cymunedau rhanbarthol sydd eisoes yn cael eu gwneud gan ddosbarthwyr y Loteri ar sail ad hoc yn fwy systematig a chydlynus. Byddai'r hyblygrwydd yma'n galluogi dosbarthwyr i ganolbwyntio ar ardaloedd targed yn ôl yr angen, er enghraifft, lle na chafwyd llawer o geisiadau am arian y Loteri.
- Partneriaeth â rhwydwaith/rhwydweithiau gwybodaeth gyhoeddus presennol. Nid fyddai angen i hyn ddigwydd ar sail barhaol o reidrwydd: gallai timau symud lleoliad yn rheolaidd, ac fe fyddai modd ystyried partneriaethau â chyfuniad o ddarparwyr. Byddai llyfrgelloedd lleol yn bartneriaid addas yn hyn o beth.
- Siopau-un-stop rhithwir. Mae'r rhain eisoes yn bod i raddau trwy gyfrwng y llinell gymorth dros y ffôn a gwefan y Loteri sy'n gweithredu fel un 'drws ffrynt' at arian y Loteri. Mae llwyddiant y sianeli cymorth yma'n dangos y galw am y math yma o gefnogaeth, at ei gilydd gan ymgeiswyr tro cyntaf sy'n dymuno gwneud cais am grantiau bychain. Efallai fod lle i ehangu'r gwasanaethau a gynigir gan y llinell gymorth a'r wefan er mwyn darparu gwasanaeth sy'n fwy ymatebol ar lefel leol neu ranbarthol.
- Ffynhonnell darparu cyngor am ffynonellau arian eraill yn ychwanegol i'r Loteri. Yn aml bydd ymgeiswyr yn chwilio am ffynonellau arian eraill fel arian partneriaeth. Gellid rhoi cyngor i ymgeiswyr nad oeddent yn gymwys i dderbyn arian gan y Loteri ar ffynonellau arian eraill. Efallai y gellid darparu cyngor o'r fath ar y we.
- Mae awdurdodau lleol eisoes yn cynnig cefnogaeth gyda cheisiadau Loteri ond mae'r ddarpariaeth yn amrywio ar draws y wlad. Mae gan rai awdurdodau swyddogion arian Loteri, tra bo gan eraill swyddogion ariannu gyda brîff ehangach. Y mwyaf defnyddiol yw lle mae uwch swyddog mewn awdurdod – gydag awdurdod digonol i ffurfio perthynas weithio ar lefel datblygol ag arianwyr eraill – yn cymryd y cyfrifoldeb am ddull gweithredu cyd-drefnus.

Mae'r Llywodraeth wedi creu gwefan er mwyn cyfuno'r ddarpariaeth o wybodaeth am grantiau bychain ar draws Llywodraeth yn Lloegr. Bydd y wefan beilot yn darparu gwybodaeth ariannu am grantiau o bedair adran llywodraeth (Y Swyddfa Gartref, DTLR, DoH a'r DfES) i'r sectorau gwirfoddol a chymunedol. Mae'r wefan yn mynd yn fyw yn ystod yr haf eleni. Mae'r Gronfa Gymunedol eisoes yn ystyried ffyrdd o gyfrannu at y cynllun hwn.

Mae yno fanteision mewn cynnig nifer o ffyrdd gwahanol i'r cyhoedd gael gwybodaeth am y cyfleoedd a gynigir gan arian y Loteri, boed ar ffurf dogfennau printiedig neu ddogfennau ar-lein, llinell rhoi cyngor dros y ffôn neu gyswllt wyneb yn wyneb. Yn yr un modd, mae'n bosib bod gan ardaloedd gwahanol anghenion gwahanol, sy'n golygu dewis atebion gwahanol. Nid oes rhaid cael un dewis cenedlaethol i bawb.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Gogledd Iwerddon, grŵp ymbarél ar gyfer y sector gwirfoddol yng Ngogledd Iwerddon, wedi datblygu pecyn meddalwedd rhyngweithiol, sef Grant Tracker, sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y ffynonellau arian sydd ar gael i'r sector gwirfoddol a chymunedol yng Ngogledd Iwerddon, gan alluogi defnyddwyr i greu rhestr fer o ffynonellau arian posib sy'n cyfateb i ofynion ariannu eu prosiectau. Mae Grant Tracker yn darparu gwybodaeth gyflawn ar ymddiriedolaethau a sefydliadau, y Loteri, ffynonellau arian Ewropeaidd, corfforaethol a statudol yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n cynnwys llawer o ganllawiau'r arianwyr eu hunain ynghyd â'u ffurflenni cais a'u hadroddiadau blynyddol. Ar hyn o bryd mae ar gael ar ffurf CD Rom a chyn hir bydd ar gael ar y Rhyngrwyd. Fe'i bwriadwyd fel siop-un-stop rhithwir ar gyfer gwybodaeth am ariannu yng Ngogledd Iwerddon.

A oes yna werth mewn datblygu ffurf o siop-un-stop Loteri ar gyfer rhoi cyngor? Ar gyfer pob cais, neu ar gyfer rhai o dan swm penodol?

Ar ba ffurf ddylid sefydlu siop-un-stop? Pwy ddylai ei rhedeg?

A ddylai roi cyngor yn unig ar arian y Loteri neu ddarparu gwybodaeth am ffynonellau arian eraill?

A ddylai fod yno gynllun ar gyfer y DU gyfan, neu a ddylid datblygu siopau-un-stop i gwrdd ag anghenion lleol penodol?

3.9 Partneriaethau gweithredol

Er mwyn amlhau effaith y Loteri mewn cymunedau lleol, mae'n aml yn ofynnol i ddosbarthwyr weithio'n agos ag asiantaethau lleol a rhanbarthol er mwyn sicrhau bod eu rhaglenni yn cyd-daro â blaenoriaethau lleol ac yn cyflawni'r synergedd angenrheidiol er mwyn bod o fudd i gymunedau lleol.

Mae gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd, er enghraifft, frîff eang i weithio er mwyn ariannu prosiectau ar draws meysydd addysg, iechyd a'r amgylchedd. Sefydlwyd y Gronfa er mwyn bod yn strategol, gweithio mewn partneriaeth a chydweddu â rhaglenni ariannu eraill. Mae hyn yn golygu bod llwyddiant rhaglenni'r Gronfa yn dibynnu ar gryfder y partneriaethau y mae'n eu ffurfio ac ar ymwybyddiaeth y Gronfa a'r partner o gyd-destun a chefndir pob un o'u rhaglenni.

Yn Lloegr mae Consortia Diwylliannol Rhanbarthol yn darparu un llais i hyrwyddo a siarad ar ran yr holl sectorau diwylliannol yn eu rhanbarthau. Un o brif dasgau'r consortia yw llunio strategaeth ddiwylliannol ar gyfer eu rhanbarth sy'n meddu ar ffocws cyffredin, gan ddwyn y llinynnau amrywiol ynghyd ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth. Credwn fod lle i gael cyswllt agosach rhwng y Consortia Diwylliannol Rhanbarthol a dosbarthwyr y Loteri er mwyn helpu i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â gwariant. Mewn rhai rhanbarthau mae yno eisoes is-grwpiau Loteri sy'n rhoi ystyriaeth i'r synergedd rhwng y Loteri a ffynonellau arian eraill. Efallai fod modd mabwysiadu'r dull gweithredu yma'n ehangach.

> Yn yr Alban, mae'r Gronfa Gymunedol wedi llunio Cytundebau Tair Ffordd gyda COSLA ar gyfer yr awdurdodau lleol a SCVO ar gyfer y sector gwirfoddol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd yn ardal pob awdurdod lleol er mwyn trafod strategaeth y Gronfa Gymunedol, rhaglenni grant, a materion sector gwirfoddol a llywodraeth leol.

A oes mwy o le i ddosbarthwyr weithredu'n fwy strategol mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol a rhanbarthol eraill?

Sut ydym yn cael cydbwysedd rhwng sicrhau bod arian y Loteri yn parhau ar wahân i arian cyhoeddus arall gan sicrhau ar yr un pryd synergedd rhyngddynt â'r arian cyhoeddus yma?

Sut gall dosbarthwyr sicrhau eu bod yn cydweddu â strategaethau a chynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol presennol er gwell, a sicrhau nad yw eu hariannu yn dyblygu, tanseilio neu ddisodli ffrydiau a strategaethau ariannu presennol?

Adran 4: Rheoli sialensau penodol arian y Loteri

4.1 Rhagarweiniad

Mae arian y Loteri yn wahanol i ffurfiau eraill o wariant cyhoeddus. Cyfarwyddyd cyffredinol yn unig a roddir gan y Llywodraeth ar ei gyfer ac nid yw wedi'i glymu gan reolau arferol y cylchdro gwariant. At ei gilydd nid yw'n cael ei ddyrannu i sefydliadau penodol ond yn hytrach mae'n dibynnu ar gyflwyno ceisiadau da. Ni all gwariant gan y Loteri gymryd lle gwariant gan y Llywodraeth – mae'n rhaid i wariant o'r fath fod yn ychwanegol. Ac egwyddor bwysig arian y Loteri yw mai ymyrraeth unwaith ac am byth yw prosiectau unigol dros gyfnod penodedig o amser sy'n arwain at ganlyniad penodol sydd o fudd parhaol.

Fel math cwbl wahanol o ariannu mae'n cynnig cyfleoedd i gyflenwi prosiectau sydd o fudd i'r cyhoedd mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Ond mae yno hefyd sawl her bwysig: sicrhau bod rhaglenni Loteri yn cydweddu yn hytrach na dyblygu rhaglenni eraill, sicrhau bod prosiectau yn gynaladwy yn yr hir dymor, ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen wrth reoli risg yn effeithiol. Rydym hefyd yn gweld rôl bosib ar gyfer arian y Loteri fel ffordd o ariannu mentrau cymdeithasol o fewn cymunedau – caniatáu i syniadau newydd ffynnu, annog gweithgaredd cymunedol a dinasyddiaeth weithredol.

4.2 Ychwanegolrwydd

Rydym wedi gwneud yn glir ar hyd yr adeg na fyddwn yn defnyddio arian y Loteri er mwyn cymryd lle gwariant gan y Llywodraeth. Rydym yn dal o'r farn y dylai hyn barhau'n egwyddor sylfaenol.

Nid yw'r ffaith bod arian y Loteri yn gallu ariannu prosiectau mewn ffyrdd gwahanol i'r Llywodraeth yn golygu bod rhaid iddo ariannu pethau gwahanol. Mae'r Llywodraeth yn ariannu'r celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon fel y mae'r Loteri hefyd. A bellach mae arian y Loteri yn gallu ariannu prosiectau sy'n ymwneud â iechyd, addysg a'r amgylchedd. Nid pynciau ar gyfer Llywodraeth ganol yn unig fu'r meysydd hyn. Mae llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol hefyd wedi darparu arian yn draddodiadol ar eu cyfer. Felly mae derbyn arian gan y Loteri yn ffurfio rhan o'r darlun ariannu cyffredinol.

Beth ddylai fod yn werth ychwanegol arian y Loteri?

A yw ychwanegolrwydd yn parhau'n berthnasol?

Beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod y ffrydiau ariannu gwahanol yn cydweddu â'i gilydd?

4.3 Cynaladwyedd

Darperir arian gan y Loteri am gyfnod cyfyngedig er mwyn osgoi ymrwymiadau a fyddai'n defnyddio cyfran gynyddol o incwm dosbarthwyr dros gyfnod a lleihau'r adnoddau fyddai ar gael i brosiectau newydd. Er hynny, mae yno bryderon bod natur tymor byr arian Loteri yn gallu golygu bod prosiectau yn methu oherwydd nad ydynt yn gallu sicrhau arian hir dymor o ffynonellau eraill. Mae yno bryderon hefyd bod yr anhawster o gael arian hir dymor yn gallu eithrio rhai ardaloedd neu grwpiau rhag ymgeisio yn y lle cyntaf.

Yn ystod cyfnod cyntaf arian y Loteri, roedd y ffocws ar wariant cyfalaf, gyda'r disgwyl y byddai refeniw yn dilyn cwblhau yn cael ei ddarparu mewn ffyrdd eraill, megis tâl mynediad. Fel rhan o newidiadau 1998 i'r Loteri, symudodd cyfeiriadau polisi newydd y ffocws i ffwrdd o brosiectau cyfalaf a chaniatáu i ddosbarthwyr ariannu pobl a gweithgareddau. Un o ganlyniadau hyn fu treblu nifer y grantiau bychain o dan £5,000 ers y newidiadau. Canlyniad arall fu gostyngiad yn nifer y dyfarniadau a roddwyd i brosiectau cyfalaf mawr oedd angen refeniw parhaus.

Er hynny, mae hyd yn oed arian refeniw wedi'i gyfyngu o ran amser ar hyn o bryd, fel rheol am dair blynedd. Er bod cynnydd yn y duedd i adnewyddu grantiau er mwyn caniatáu i gynlluniau barhau, nid oes modd ailadrodd arian dilynol yn y modd yma am byth.

Nodir rhai ffyrdd o gynorthwyo cynaladwyedd isod.

4.4 Ymestyn arian refeniw

Fel rhan o'r ymgynghoriad â'r sector gwirfoddol ynglŷn â'r Cynllun Strategol, gofynnwyd cwestiynau manwl gan y Gronfa Gymunedol am hyd ariannu. Roedd y rhan fwyaf o sylwadau yn gefnogol i'r dull gweithredu presennol o ariannu am dair blynedd yn y lle cyntaf a hyd at dair blynedd arall yn dilyn adnewyddu'r cais. Fel anogaeth ar gyfer cynaladwyedd mae'r Gronfa Gymunedol wedi penderfynu cyflwyno trefniadau lleihau arian yn raddol ar gyfer ailgeisiadau. Mae hyn yn golygu rhoi anogaeth gwirioneddol i ddod o hyd i ffynonellau arian eraill os yw prosiect i barhau y tu hwnt i gyfnod arian y Loteri. Yn dilyn ymgynghoriad wrth baratoi eu Cynllun Strategol diweddar mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri bellach yn cynnig arian refeniw am hyd at bum mlynedd.

A ddylai'r Loteri helpu prosiectau i ddal ati trwy ddarparu refeniw parhaus neu a ddylid gwyro tuag at grantiau wedi'u cyfyngu o ran amser, gan alluogi prosiectau newydd i gael arian?

A oes yno achos dros ariannu mwy hir dymor mewn ardaloedd difreintiedig sy'n cael anhawster cynnal prosiectau hir dymor?

4.5 Arian craidd

Yn ddiweddar adolygodd y Gronfa Gymunedol hefyd ei pholisi tuag at gefnogi costau craidd. Er bod y Gronfa wedi cwrdd â chostau craidd newydd y prosiectau y mae'n eu cefnogi ar hyd yr adeg, bellach mae'n bosib cwrdd â'r gyfran briodol o gostau rheoli staff uniongyrchol presennol, a lle mae cyfiawnhad dros hynny, rhywfaint o gostau llety hefyd.

A oes yno achos dros gynyddu'r defnydd o arian craidd gan ddosbarthwyr, neu a fyddai hynny'n ddefnydd gwael o arian y Loteri?

4.6 Gwaddoliad

Efallai fod gwaddoliad yn un ffordd o ddarparu arian refeniw hir dymor trwy'r Loteri, yn enwedig ar gyfer cymunedau tlotach heb fawr o botensial i ddarparu'r arian refeniw hir dymor sy'n ofynnol gan rai cynlluniau unwaith y mae'r arian Loteri cychwynnol yn dod i ben. Mantais gwaddoliad yw eu bod yn darparu sicrwydd cymharol ynghylch lefelau incwm yn y dyfodol, er y bydd incwm wrth reswm yn amrywio gyda'r adenillion ar yr gwaddoliad. Er hynny mae yna nifer o broblemau posib sy'n gysylltiedig â gwaddoliad. Mae angen swm sylweddol rhag blaen er mwyn darparu refeniw rhesymol. Mae gwaddoliad felly'n clymu arian ac fe allai hynny olygu fod llai ar gael ar gyfer grantiau eraill. Efallai bydd llai o reolaeth gan ddosbarthwyr dros yr arian a ddarparwyd ganddynt, a llai o hyblygrwydd gyda'r arian hwnnw hefyd. Bydd hefyd angen arbenigedd ar ymgeiswyr wrth reoli arian, neu byddai'n rhaid iddynt brynu arbenigedd o'r fath i'w cynorthwyo.

A oes lle i ddefnyddio gwaddoliad ariannol er mwyn helpu i gynnal rhai prosiectau yn yr hir dymor? Neu ai ariannu'r ychydig ar draul y llawer yw hyn?

4.7 Arloesedd a risg

Awgrymwn y dylai'r Loteri fod yn gronfa ar gyfer arloesedd. Mae arian y Loteri yn wahanol ei natur i arian y Trysorlys ac fe'i sefydlwyd i ariannu'r pethau hynny nad oedd y Llywodraeth yn fodlon eu hariannu. Mae annibyniaeth arian y Loteri yn rhoi cyfle i ddosbarthwyr ariannu pethau newydd mewn ffyrdd newydd.

Nid yw hyn yn awgrymu na ddylai fod yno unrhyw berthynas rhwng arian y Loteri ac arian y Llywodraeth. Yn hytrach rydym yn gweld arian y Loteri fel ffordd o fraenaru'r tir ar gyfer ffurfiau newydd o ariannu neu ariannu mathau newydd o brosiectau. Rydym eisoes wedi cydnabod nad yw'r Loteri yn gallu parhau i ariannu prosiect unigol am byth. Ond lle mae wedi ariannu meysydd newydd a chyffrous sydd wedi bod yn llwyddiannus a lle mae galw parhaus amdanynt, mae yno le weithiau i'r Llywodraeth neu arianwyr eraill ddarparu'r parhad mewn ariannu. Mae angen datblygu opsiynau ar gyfer prif ffrydio yn gynnar yn oes rhaglen.

Fe all arloesi wrth ariannu olygu risg, ond nid yw rheoli risg yn golygu osgoi risg. Yr hyn sy'n bwysig yw adnabod, deall a rheoli risg, a dysgu sut i dderbyn y risg iawn. Disgrifiwyd hyn fel 'rhesymu wrth gymryd risg'.

4.8 Lleihau biwrocratiaeth ar gyfer prosiectau risg isel

Mewn ymgais i osgoi risg fe all dosbarthwyr y Loteri weithiau geisio gosod lefel o reolaeth dros brosiectau bychain risg isel sy'n anghymesur â'r risg cysylltiedig. Un o'r rhesymau am hyn yw bod dosbarthwyr eu hunain yn destun cyfres o reolau sy'n rheoli sut a phryd y maent yn cael gwario eu cyfran o'r arian sy'n cael ei godi gan y Loteri. Mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â gweithdrefnau cyfrifo'r Llywodraeth a dilyn cyngor ac arweiniad arall. Yn benodol, mae'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Llywodraeth yn nodi sut y dylai dosbarthwyr dderbyn ac asesu ceisiadau ar gyfer arian y Loteri, pryd ac o dan ba amodau y dylent dalu grant i ymgeiswyr llwyddiannus, sut y dylent archwilio a chyfrifo'r defnydd o arian y Loteri, a pha reolau ac arferion ariannol eraill y dylent eu dilyn.

Arian cyhoeddus yw arian y Loteri ac mae'n bwysig bod gweithdrefnau cyfrifo priodol yn cael eu defnyddio o hyd. Rydym fodd bynnag yn bwriadu cynnal arolwg o'r Cyfarwyddiadau Ariannol a lle bo hynny'n briodol, eu lleihau er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddosbarthwyr yn y ffordd y maent yn rheoli arian y Loteri. Er enghraifft, efallai fod modd cyflwyno mwy o bwerau dewisol fel bod dosbarthwyr yn gallu asesu ceisiadau ar sail y lefel o risg cysylltiedig.

A ddylid rhoi mwy o ddewis i ddosbarthwyr wrth reoli risg, yn enwedig ar gyfer grantiau llai?

4.9 Cefnogi prosiectau cyfalaf sylweddol

Mae angen lefel wahanol o reolaeth yng nghyswllt prosiectau risg uchel.

Rhoddwyd croeso i'r symudiad mewn blynyddoedd diweddar o arian cyfalaf i arian refeniw ac mae wedi caniatáu i arian y Loteri gael ei wasgaru'n llawer mwy eang. Mae ymgynghori ynghylch cynlluniau strategol dosbarthwyr yn awgrymu fodd bynnag bod yno gefnogaeth o hyd i arian cyfalaf sy'n caniatáu datblygu neu adfer cyfleusterau diwylliannol a chwaraeon o bwys na fyddai fel arall yn bosib heb arian y Loteri.

Mae cynaladwyedd rhai o'r prif brosiectau sy'n derbyn arian gan y Loteri yn dibynnu ar ddadansoddiad gofalus o'u hyfywedd hir dymor cyn dyfarnu arian. Mae dosbarthwyr wedi ymateb i bryderon ynghylch cynaladwyedd atyniadau sy'n derbyn arian y Loteri trwy gynyddu eu harbenigedd mewnol ar asesu niferoedd ymwelwyr a ffactorau eraill sy'n effeithio ar hyfywedd. Efallai fod angen mwy o gefnogaeth ar brosiectau mawr iawn. Efallai hefyd y bydd angen arian pellach ar rai atyniadau, er eu bod yn gynaladwy yn y tymor canolig, er mwyn adnewyddu eu harddangosfeydd a chynnal diddordeb y cyhoedd.

Byddwn yn ystyried gyda'r Swyddfa Masnach Llywodraeth (OGC) sut y gallant gyfrannu at yr asesiad risg a phwyso a mesur prosiectau mawr risg uchel. Fe allai defnyddio proses Porth y Swyddfa Masnach fod yn arf gwerthfawr wrth gadarnhau pa mor ymarferol yw cynllun busnes prosiect gan alluogi mesur cyflawniad yn erbyn targedau.

A allai dosbarthwyr wneud mwy i weithio gyda ffynonellau arian eraill i gytuno ar strategaeth ymadael ar gyfer prosiectau mawr?

Sut ddylid ariannu prosiectau cyfalaf mawr?

Beth mwy y gellid ei wneud i sicrhau eu hyfywedd yn yr hir dymor?

A ddylai arian fod ar gael i adnewyddu atyniadau presennol sy'n cael eu hariannu gan y Loteri?

4.10 Ariannu mentrau cymdeithasol

Credwn fod gan arian y Loteri rôl bwysig wrth ariannu mentrau cymdeithasol o fewn cymunedau, gan roi arian 'had ŷd' ar gyfer prosiectau a fydd yn hunan-gynhaliol yn y dyfodol. Fe all y buddsoddiad cychwynnol yma, yn nwylo'r bobl iawn, gael effaith y tu hwnt i'r swm gwirioneddol sydd ar gael. Mae cyfleuster neu wasanaeth ychwanegol ar gyfer pobl leol yn darparu manteision amlwg, ond yn aml iawn fe all prosiect Loteri llwyddiannus gymell prosiectau neu weithgareddau eraill, a chael sgil-effaith ar swyddi lleol a mentrau lleol.

Os ydym am gael y budd mwyaf posib o arian y Loteri, yn awr ac yn y dyfodol, mae angen i ni adeiladu ar hyn. Mae angen i ni annog yr unigolion, grwpiau a sefydliadau hynny sydd â'r cymhelliant a'r weledigaeth i weithredu fel symbylwyr o fewn eu cymunedau eu hunain i wneud i bethau digwydd, yr entrepreuneuriaid cymdeithasol, beth bynnag fo'u maes arbennig. Efallai y bydd angen i ni edrych ar y cyfyngiadau gweinyddol sy'n cael eu gosod arnynt ac archwilio ffyrdd o lacio gafael rhai ohonynt. Efallai y byddwn am edrych ar sut yr ydym yn dod o hyd i'r bobl sydd â'r mwyaf i'w gynnig a'u helpu i gael mynediad at arian.

Mae angen i ni hefyd annog syniadau arloesol a ffyrdd amgen o gyflenwi prosiectau neu wasanaethau. Fe allai hynny olygu y bydd angen i ddosbarthwyr mewn rhai achosion ail-asesu sut y maent yn gwneud penderfyniadau ynghylch arian y Loteri, i gynnwys parodrwydd i gymryd risg wrth gefnogi prosiect lle mae hyn yn ymddangos yn rhesymol, efallai oherwydd fod y canlyniadau posib yn arbennig o werthfawr, neu oherwydd fod gan yr unigolyn neu'r sefydliad record dda o safbwynt cyflawniad.

Beth yw'r ffordd orau i ni sicrhau bod yr unigolion a'r cyrff hynny sydd â llawer i'w gyfrannu i'w cymunedau yn cael mynediad at arian y Loteri?

Beth yw'r ffordd orau i ni helpu i annog ffyrdd o feddwl sy'n cymell arloesedd?

Sut mae cael cydbwysedd rhwng y risg uwch sy'n gysylltiedig â phrosiectau arloesol â'r angen i beidio â gwastraffu arian y Loteri?

Adran 5: Cyflwyno arian y Loteri yn fwy effeithlon ac effeithiol

5.1 Rhagarweiniad

Fel pob sefydliad sy'n gyfrifol am wario arian cyhoeddus, mae'n rhaid i ddosbarthwyr y Loteri gadw eu costau gweinyddu mor isel â phosib, tra'n parhau i gyflawni eu swyddogaethau statudol. Mae angen iddynt hwythau ac i ninnau ystyried a oes yno feysydd lle gellid cynyddu effeithlonrwydd, efallai trwy gyfuno swyddogaethau neu rannu adnoddau. Fel unrhyw sefydliad arall, mae angen i ddosbarthwyr ystyried a oes yno ffyrdd o gyflenwi'r gwasanaethau yn fwy effeithiol er mwyn amlhau'r arian sy'n mynd i brosiectau.

Mae cadw costau gweinyddu yn isel yn arbennig o bwysig os yw dosbarthwyr i gynyddu'r gwaith datblygu y maent yn ei wneud gyda'r rhai sy'n gwneud cais am grantiau er mwyn targedu arian a chynyddu ar allu mewn rhai ardaloedd.

5.2 Cynyddu gweithio ar y cyd

Ar y cychwyn pan sefydlwyd y Loteri, oherwydd y symiau sylweddol o arian a natur wahanol yr achosion da, penderfynwyd nad oedd yn briodol i un dosbarthwr weinyddu arian y Loteri. Bellach mae yno bymtheg o ddosbarthwyr y Loteri, yn cynnwys cynghorau celfyddydau a chwaraeon ar wahân gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Rhoddir mandad i ddosbarthwyr gwahanol gefnogi gweithgareddau a chyrff gwahanol. Mae pob dosbarthwr wedi sefydlu cyswllt â'r cyrff eraill sy'n ymwneud â'i achos da arbennig, gan helpu i sicrhau synergedd rhwng y Loteri a ffynonellau arian eraill ar gyfer y sector. Er hynny, mae angen sicrhau rhywfaint o weithio ar y cyd rhwng dosbarthwyr, a rhwng dosbarthwyr ac arianwyr cyffredinol eraill. Mae hefyd yn bwysig i gynlluniau sy'n cefnogi prosiectau tebyg, ond sy'n cael eu hariannu gan ddosbarthwyr gwahanol, gydweddu â'i gilydd.

Mae yno rhywfaint o orgyffwrdd yn y meysydd y mae dosbarthwyr yn gyfrifol amdanynt, ac mae'n bwysig sicrhau nad yw'r rhai sy'n gwneud cais am arian y Loteri yn syrthio rhwng dwy stôl, gyda phrosiectau gwerth chweil posib yn colli cyfle i gael arian oherwydd fod angen arian arnynt oddi wrth fwy nag un dosbarthwr. Mae dosbarthwyr yn gwneud ymdrechion gwirioneddol i ddatblygu ffyrdd mwy cyd-drefnus o weithio ac maent eisoes yn cydweithredu mewn ystod o feysydd. Mae Arian i Bawb a Space for Sport and the Arts eisoes yn enghreifftiau llwyddiannus o gynlluniau ar y cyd sy'n cael eu gweithredu gan ddosbarthwyr, ac mae Cyfran Deg yn gynllun wedi'i dargedu sy'n golygu cydweithio agos rhwng y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Er hynny, mae lle o hyd i wneud mwy.

Un opsiwn fyddai tynnu cyfran o arian y Loteri, a dyrannu cyllid penodol ar gyfer rhaglenni Loteri ar y cyd.

- Un posibilrwydd fyddai Cronfa Ieuenctid, gan ddwyn ynghyd arian a ddyrennir ar gyfer pobl ifanc mewn un gronfa integredig a fyddai'n trawsdorri meysydd gwahanol.
- Posibilrwydd arall fyddai neuaddau cymuned, sy'n angen arian oddi wrth fwy nag un dosbarthwr yn aml.

Neu ffordd fwy uniongyrchol o weithredu fyddai datblygu'r lle i ddosbarthwyr gydweithio er mwyn cyflenwi rhaglenni penodol lle mae gan fwy nag un dosbarthwr ddiddordeb, fel yn achos rhaglenni Gofal Plant lle mae'r Gronfa Gymunedol y cyflawni rhywfaint o'r gwaith rheoli ar gyfer y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu defnyddio'r Swyddfeydd Llywodraeth (GO) ar gyfer y rhanbarthau i gyd-drefnu ariannu grantiau bychain (hyd at £10,000) ar gyfer pob un o ranbarthau Lloegr. Awgrymir y gallai'r Swyddfeydd Llywodraeth benodi sefydliad neu gorff gwirfoddol neu gymunedol i weithredu fel yr un corff gweinyddu grantiau ar gyfer pob ardal, i ddelio â'r holl grantiau bychain sy'n gweithredu yn yr ardal. Mae'n debygol y byddai'r gweinyddwyr hyn yn cael eu dewis o blith nifer o gyrff neu sefydliadau gwahanol megis:

- partneriaethau strategol lleol
- sefydliadau cymunedol
- cynghorau cymuned gwledig
- asiantaethau datblygu gwledig
- gwasanaethau gwirfoddol cymunedol

Mae dosbarthwyr y Loteri wedi datblygu elfen sylweddol o arbenigedd wrth gyflenwi amrywiol fathau a maint o grantiau, gan ddatblygu systemau ar gyfer cyflenwi'r grantiau hynny ar draws ardaloedd gwahanol, ac mewn rhai achosion ar draws y DU. Credwn fod lle mewn rhai achosion i ddefnyddio'r arbenigedd hynny i gyflenwi mathau eraill o grantiau ar gyfer ffynonellau arian ar wahân i'r Loteri, gan leihau'r costau gweinyddu cyffredinol ar gyfer cyflenwi arian y Loteri. Byddai symlrwydd dull gweithredu cyddrefnus o'r fath yn cynnig manteision sylweddol hefyd i'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau.

A ddylid tynnu cyfran o arian y Loteri i ariannu cynlluniau ar y cyd? Ym mha feysydd fyddai yno werth i gynlluniau ar y cyd?

Sut gellid symleiddio arian gan ddosbarthwyr y Loteri a ffynonellau arian eraill?

A ddylid caniatau i ddosbarthwyr ddosbarthu arian ar ran cyrff ariannu eraill?

5.3 Lleihau nifer y dosbarthwyr

Er gwaethaf eu hymdrechion gorau, mae'n bosib bod yno derfyn i lefel y gweithio ar y cyd y gellir ei gyflawni gan gyrff annibynnol ac efallai y dylem ystyried a oes lle i gyfuno dosbarthwyr, pe bai cyfuniad o'r fath yn arwain at enillion mewn effeithlonrwydd. Fe allai hyn olygu cyfuno swyddogaethau arbennig (fel yr awgrymwyd yn gynharach yn y papur hwn mewn perthynas â gweithgareddau hyrwyddo), neu gyfuno sefydliadau cyfan lle mae eu gweithrediadau yn troedio'r un tir. Mae lle yn y dyfodol i gyfuno'r swyddogaethau sy'n weddill gan Gomisiwn y Mileniwm – megis monitro'r prosiectau y maent wedi'u hariannu – gyda dosbarthwr arall, ond mae'n bosib y bydd yno ymgeiswyr eraill.

Opsiwn mwy radical fyddai creu un dosbarthwr Loteri ymbarél a allai ddirprwyo arian i gyrff eraill. Fe allai hyn annog dull gweithredu mwy cyddrefnus o safbwynt dosbarthu a rhoi un pwynt cyswllt i'r cyhoedd – sydd at ei gilydd yn ymwybodol o'r 'Loteri' yn hytrach na dosbarthwyr unigol. Fe allai hyn hefyd symleiddio'r broses o gyflwyno cais trwy ddarparu un pwynt mynediad. Pan gychwynnwyd y Loteri fodd bynnag, barnwyd bod cyrff ar wahân ar gyfer pob un o'r achosion da yn briodol, ac y dylid defnyddio cyrff presennol lle bynnag yr oedd hynny'n bosib er mwyn peidio dyblygu arbenigedd neu redeg yn groes i strategaethau trylwyr presennol. Mae yno berygl hefyd y byddai creu un corff newydd i weithredu trwy ddirprwyon yn ychwanegu un haen arall o weinyddu, ac chreu oedi o fewn y system, heb ychwanegu gwerth.

Mae lle o fewn strwythurau presennol i ddosbarthwyr gynyddu effeithlonrwydd trwy ddaliadaeth eiddo ar y cyd a rhannu gwasanaethau.

A fyddai gwerth mewn cyfuno rhai dosbarthwyr? A fyddai'r rhain yn arbedion maint yn unig neu a oes yna fanteision ar gyfer gweithio mwy effeithlon?

Pe bai yno un dosbarthwr sut fyddai cyngor ac arbenigedd yr ardaloedd unigol sy'n cael budd yn cael eu cadw?

A oes yno botensial ar gyfer mwy o rannu adeiladau a swyddogaethau?

5.4 Lleihau nifer y rhaglenni

Efallai fod lle i leihau nifer y rhaglenni sy'n cael eu gweithredu gan ddosbarthwyr, gan symleiddio'r broses o wneud cais, er bod modd dadlau ei bod yn haws i ymgeiswyr gael mynediad at arian sydd wedi'i nodi'n glir fel rhaglenni ar wahân. Unwaith eto mae'n bosib bod yr ateb yn amrywio o ddosbarthwr i ddosbarthwr. Dangosodd ymgynghori a gynhaliwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri wrth baratoi Cynllun Strategol diweddar ffafriaeth glir o blaid rhaglenni grant generig. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn wahanol oherwydd cynnwys ei rhaglenni, yn ogystal â'r pwyslais ar bartneriaeth, cydweddu, strategaeth a chynnwys pobl mewn cymdeithas. O ganlyniad mae'r Gronfa yn cyflenwi dros 50 o raglenni ym meysydd iechyd, addysg a'r amgylchedd.

A ddylai dosbarthwyr ystyried lleihau nifer y rhaglenni a weithredir ganddynt?

5.5 Ariannu canlyniad

Eisoes mae gofyn i ddosbarthwyr fonitro'r rhaglenni y maent yn eu hariannu er mwyn sicrhau bod arian y Loteri yn sicrhau gwerth am arian. Yn y gorffennol rhoddwyd pwyslais ar fewnbwn yn hytrach na chanlyniadau. Mae hyn yn dechrau newid. Er enghraifft, mae'r Gronfa Gymunedol wedi datgan yn ei chynllun strategol newydd ei bod yn bwriadu rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau, ac y bydd gofyn i'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa ddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau'r bobl y maent yn eu hariannu. Mae'r math yma o adborth yn hanfodol os yw dosbarthwyr yn mynd i allu cynllunio rhaglenni effeithiol yn y dyfodol sy'n cwrdd â blaenoriaethau ac anghenion gwirioneddol.

I ba raddau y dylai dosbarthwyr geisio rhagnodi canlyniadau'r prosiectau y maent yn eu hariannu o'r cychwyn cyntaf?

A ddylai dosbarthwyr roi mwy o ffocws ar bwyso a mesur eu rhaglenni?

5.6 Balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mynegwyd pryder am y lefelau cymharol uchel o arian a godwyd gan y Loteri ar gyfer achosion da ond na chafodd eu dosbarthu hyd yma. Rhan o'r broblem yw bod bwlch yn aml rhwng dyfarnu arian gan y Loteri i brosiect neu sefydliad a bod mewn sefyllfa i ddefnyddio'r arian. Fe all hyn fod am resymau da iawn – efallai eu bod yn aros am arian partneriaeth, efallai eu bod am gymryd amser i ddatblygu cynllun prosiect llawn, neu efallai fod disgwyl i'r prosiect ei hun redeg o gyfnod penodol yn y dyfodol. Mewn gwirionedd, er bod balans Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn £3.53 biliwn ar ddiwedd Rhagfyr 2001, yr oedd gan ddosbarthwyr gyfanswm o £3.82 biliwn mewn ymrwymiadau, rhyw £290 miliwn yn fwy na'r hyn oedd ar gael mewn gwirionedd. Ac mae'r llog a enillir ar yr arian yn cael ei ychwanegu at y cyfanswm sydd ar gael i achosion da.

Er hynny mae'r Llywodraeth yn gweithio â dosbarthwyr er mwyn ystyried sut i ganiatáu trosglwyddo arian a glustnodwyd yn gynt. Mae'r posibiliadau yn cynnwys caniatáu taliadau rhag blaen ar gyfer prosiectau risg isel, cyflwyno dull gweithredu mwy hyblyg i arian partneriaeth a rhyddhau mwy o arian ar gyfer cynllunio prosiect.

Beth mwy y gellir ei wneud i roi arian i brosiectau llwyddiannus yn gynt?

Adran 6: Casgliad

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar y materion a godwyd yn y papur hwn ac yn fwy cyffredinol ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â dosbarthu arian y Loteri. Bydd y cyfnod ymgynghori'n parhau tan 30 Hydref 2002.

Dylid anfon sylwadau ysgrifenedig at:

Rachel Miller
Arolwg o'r Loteri Genedlaethol
Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
2-4 Cockspur Street
LONDON SW1Y 5DH

Gellir anfon sylwadau trwy e-bost at: lotteryfunding@culture.gsi.gov.uk

O dan gôd ymarfer llywodraeth agored, gellir cyhoeddi neu ddarparu unrhyw ymatebion, ar ôl derbyn cais, i drydydd parti. Dylai ymatebwyr felly nodi'n glir a ydynt yn dymuno i unrhyw ran (neu'r cyfan) o'u hymateb aros yn gyfrinachol.

Os ydych am wneud cwyn sy'n gysylltiedig â phroses ymgynghori y papur hwn, cysylltwch a Craig Patchett yn yr Uned Polisi, Arloesedd a Chyflenwi yn yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, 2-4 Cockspur Street, London, SW1Y 5DH neu yn craig.patchett@culture.gsi.gov.uk

Department for Culture,
Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk
PP 488 July 2002